

Ofcom

making communications work
for everyone

Radio Cymunedol: adolygiad o drwyddedu a pholisi technegol

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi:

28 Hydref 2016

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion:

22 Rhagfyr 2016

Am y ddogfen hon

Mae bron 250 o orsafoedd radio cymunedol wedi'u trwyddedu gan Ofcom yn darlledu mewn lleoliadau ledled y DU. Gwasanaethau bach di-elw yw'r gorsafoedd hyn sy'n dod ag amrywiaeth o fuddion i'r cymunedau y maent yn eu targedu, ac maent yn cael eu rhedeg gyda chymorth gwirfoddolwyr.

Mae Ofcom yn dod i derfyn ei drydydd cylch o drwyddedu gorsafoedd radio cymunedol a byddai'n hoffi cynnig rhagor o drwyddedau pan fydd sbectrwm addas ar gael. Rydym yn bwriadu cynnal pedwerydd cylch trwyddedu a fydd yn fyrrach ac yn fwy penodol na'r cylchoedd blaenorol, ac mae'r Ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn am y dull trwyddedu yr ydym yn ei ffafrio ar gyfer y cylch trwyddedu nesaf hwn.

Rydym hefyd wedi cael adborth ar ein polisi technegol presennol. Mae rhai o'r gorsafoedd ac ymgeiswyr presennol yn teimlo nad yw'n rhoi digon o sylw i anghenion penodol y gorsafoedd, a all fod yn wahanol. O ganlyniad i hyn, rydym yn ystyried ei newid. Rydym yn gofyn am farn ynghylch polisi technegol diwygiedig, a fyddai'n ystyried gofynion gorsafoedd unigol, ac yn ystyried ceisiadau gan orsafoedd i wella'r cwmpas yn yr ardal maent â thrwydded i'w gwasanaethu a/neu ymestyn yr ardal y mae ganddynt drwydded ar ei chyfer i ardal neu leoliad cyfagos

Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried mai ein blaenoriaeth gyntaf fydd gwahodd ceisiadau am drwyddedau newydd, wedyn ystyried ceisiadau am wella cwmpasau darlledu o fewn yr ardal drwyddedig bresennol, a cheisiadau i ymestyn ardaloedd trwyddedig i ardal neu leoliad gyfagos, ac wedyn cynllunio ar gyfer trwyddedu gwasanaethau DAB graddfa fach yn y dyfodol.

Cynnwys

Adran

1	Crynodeb gweithredol	1
2	Cyflwyniad	4
3	Trwyddedu gwasanaethau newydd	6
4	Newidiadau yn ein polisi technegol	15
5	Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol	24

Tudalen

Atodiad

1	Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	26
2	Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori	28
3	Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad	29
4	Cwestiynau'r ymgynghoriad	31
5	Asesu Effeithiau	32
6	Gofynion statudol ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol	37
7	Mynegi diddordeb	43

Tudalen

Adran 1

Crynodeb gweithredol

- 1.1 Ers i Orchymyn Radio Cymunedol 2004 (y Gorchymyn) ddod i rym, mae fframwaith statudol penodol ar waith ar gyfer trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol. Gwnaeth Ofcom benderfyniad polisi i ddechrau trwyddedu gwasanaethau o'r fath cyn gynted ag yr oedd y ddeddfwriaeth yn dod i rym. Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer radio cymunedol a sefydlwyd gan y Gorchymyn (fel y'i diwygiwyd) yw'r sail i drefniadau Ofcom ar gyfer gwahodd ceisiadau i redeg gorsafoedd radio cymunedol, ystyried y ceisiadau hynny, a dyfarnu trwyddedau i weithredu'r gwasanaethau hynny.
- 1.2 Mae Ofcom wedi cynnal tri chylch trwyddedu (mae'r trydydd yn agos i'w derfyn) ac wedi ystyried mwy na 600 o geisiadau am drwyddedau. Mae bron 250 o orsafoedd yn darlledu mewn lleoliadau ledled y DU. Gall radio cymunedol ddod â buddion mawr i ddinasyddion lleol. Fel arfer mae gorsafoedd yn darlledu o fewn cwmpas o tua 5km (mwy na hynny weithiau), ac yn cael eu rhedeg yn ddielw gyda chyfraniad gan wirfoddolwyr lleol. Mae gorsafoedd yn cynnig hyfforddiant i bobl yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn cryfhau cysylltiadau cymunedol, yn hybu trafodaeth ac yn dod â buddion eraill i'r gymuned.
- 1.3 Credwn fod tri phrif ffactor i'w hystyried mewn perthynas â dyfodol radio cymunedol:
 - DAB graddfa fach: mae cynllun treialu diweddar wedi bod yn llwyddiannus. Bydd Ofcom yn cydweithio â'r Llywodraeth i benderfynu a gyflwynir trwyddedu ar gyfer DAB graddfa fach a sut y gwneir hynny, a fydd yn galluogi gwasanaethau radio cymunedol i ddarlledu ar y llwyfan digidol;
 - Y galw'n parhau am drwyddedau analog: rydym yn gwybod am rai ymgeiswyr posibl sydd am gael cyfle i wneud cais am drwydded;
 - Gwella cwmpas darlledu gwasanaethau presennol: mae nifer o orsafoedd presennol wedi gofyn sut y gallant wella eu cwmpas darlledu.
- 1.4 Rydym yn rhag-weld y bydd ein cylch trwyddedu presennol (y trydydd) yn dod i ben ar ddiwedd gwanwyn 2017, ac na ddechreuir trwyddedu gwasanaethau DAB graddfa fach cyn 2018. Yn y cyfamser rydym yn bwriadu trwyddedu rhagor o wasanaethau analog, yn ogystal ag ystyried gwella'r cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol. Mae'r Ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch gwahanol ddulliau o drwyddedu, gyda'r bwriad o wneud y cylch trwyddedu yn fyr a phenodol ymhob un. Mae hefyd yn ailystyried ein polisi technegol presennol ar gyfer radio cymunedol, ac yn amlinellu'r opsiynau y credwn eu bod yn briodol ar gyfer ystyried ceisiadau am welliannau yn y cwmpas darlledu. Yn ogystal â hyn, rydym yn gofyn am farn ynghylch pa waith y dylem roi blaenoriaeth iddo.
- 1.5 Rydym yn cyflwyno pedwar opsiwn gwahanol ar gyfer trwyddedu yn yr Ymgynghoriad hwn. (Nid ydynt i gyd yn annibynnol ar ei gilydd, ac mae'n bosibl mai cymysgedd o rai ohonynt fydd y canlyniad gorau.) Y rhain yw:
 - a) Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd sydd heb wasanaeth radio cymunedol presennol;
 - b) Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle mae mwy o amleddau FM ar gael;

- c) Targeddu gwahoddiadau: gwahodd ceisiadau lle mae gennym dystiolaeth o alw (drwy ddefnyddio 'mynegiadau o ddiddordeb') ar ôl cadarnhau bod amledd FM addas ar gael;
- d) Gwahodd ceisiadau o ardaloedd lle mae amledd ar gael erbyn hyn (e.e. wedi i orsaf ildio ei thrwydded).
- 1.6 Yr opsiwn y mae Ofcom yn ei ffafrio yw (c), y dull 'targeddu gwahoddiadau'. Ochr yn ochr â'r Ymgynghoriad hwn, rydym yn gwahodd grwpiau sydd â diddordeb i gyflwyno 'mynegiadau o ddiddordeb' mewn ymgeisio am drwydded. Rydym yn bwriadu ystyried y rhain, a'r ymatebion i'r Ymgynghoriad hwn, wrth benderfynu a'r opsiwn rydym yn ei ffafrio yw'r dull gorau ac, os ydyw, ym mha ardaloedd y byddwn yn gwahodd ceisiadau (ar ôl cadarnhau pa amleddau FM sydd ar gael).
- 1.7 Rydym hefyd yn credu bod hon yn adeg briodol i ailystyried ein polisi technegol. Cawsom adborth sy'n mynegi'r farn nad yw ein polisi presennol yn rhoi digon o sylw i anghenion penodol y gorsaf, a all fod yn wahanol. Rhai o'r problemau y mae gorsaf yn eu profi yw: ymyriant, materion sy'n ymwneud â safleoedd trosglwyddo, ac ardaloedd lle mae derbyniad gwael neu lle nad oes derbyniad o gwbl yn eu cwmpas darlledu. Yn ogystal â hyn, mae gwasanaethau wedi cysylltu â ni sy'n dymuno ehangu eu cwmpas darlledu, ac rydym yn ymwybodol y gall newidiadau mewn demograffeg leol fod yn ffactor mewn rhai achosion.
- 1.8 Wrth ystyried unrhyw geisiadau am welliannau yn y cwmpas darlledu, mae angen i ni ystyried y gost cyfle. Hynny yw, yr effaith y byddai newid yn ei chael ar ein gallu i drwyddedu gwasanaethau newydd, neu i ganiatáu gwelliannau yn y cwmpas rywle arall. Gall cynyddu cwmpas darlledu un gwasanaeth atal gorsaf arall rhag defnyddio amledd a fyddai fel arall wedi bod yn addas
- 1.9 Yn ogystal â'r gallu i ganiatáu i orsaf wella ei chwmpas darlledu yn yr ardal y mae wedi'i thrwyddedu ar ei chyfer, mae gan Ofcom hefyd yr awdurdod i ymestyn ardal drwyddedig i unrhyw ardal neu leoliad cyfagos¹. O dan delerau'r statud, caiff Ofcom arfer y pŵer hwn dim ond os na fyddai'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn yr ardal drwyddedig, neu os yw'n credu bod cyflawnhad dros ehangu'r ardal drwyddedig yn amgylchiadau eithriadol yr achos dan sylw.
- 1.10 Rydym yn bwriadu defnyddio chwe mater craidd wrth ystyried a fyddwn yn cydsynio i geisiadau am ehangu cwmpas darlledu'r ardal drwyddedig bresennol i ardal neu leoliad cyfagos neu beidio, a hynny ar sail achosion unigol. Rydym yn gofyn am farn am y materion craidd hyn. Yn fyr, y rhain yw:
- a oes gan yr ardal y mae'r trwyddedai'n dymuno ymestyn ei gwmpas darlledu iddi berthynas â'r ardal drwyddedig bresennol, neu a oes tebygrwydd rhyngddynt (e.e. a fyddai ymestyn y cwmpas darlledu'n briodol ar sail cymuned darged ddatganedig gorsaf);
 - a yw'n rhesymol credu bod y cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn "arwyddocaol";
 - a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau cynnydd y gellid credu'n rhesymol ei fod yn "arwyddocaol";

¹ Adran 106(4) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004).

- os oes angen adnodd amledd ychwanegol i hwyluso'r estyniad a geisir, ac a oes adnodd addas ar gael;
 - effaith y newid (h.y. trosglwyddyddion ategol, neu'r pŵer sydd gan drosglwyddydd presennol i gwmpasu'r ardal estynedig honno) ar argaeledd yr amleddau dros ardal ehangach (o lawer);
 - yr effaith bosibl ar wasanaethau radio masnachol a chymunedol trwyddedig eraill.
- 1.11 Rydym hefyd yn awgrymu gwahanol atebion a allai wella'r cwmpas darlledu neu ei ymestyn. Ni fydd pob un ohonynt yn opsiynau ymarferol i bob gorsaf. Y rhain yw:
- Cynyddu uchder yr antena;
 - Symud safle'r trosglwyddydd i leoliad mwy manteisiol;
 - Cynyddu pŵer pelydru uchaf y gwasanaeth;
 - Trosglwyddyddion ategol: darlledu ar drosglwyddyddion ychwanegol, ar wahanol amleddau fel arfer (mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn dechnegol ymarferol defnyddio'r un amledd ar gyfer mwy nag un trosglwyddydd yn yr un ardal drwyddedig);
 - Newid amledd: er enghraifft, i un sy'n profi llai o ymyriant o'r tu allan.
- 1.12 Rydym yn barod i ddefnyddio unrhyw un o'r opsiynau hyn, a bydd gwahanol ddulliau'n briodol mewn gwahanol amgylchiadau. Mae'n bosibl y bydd angen i ni roi blaenoriaeth i geisiadau penodol, os ceir galw mawr, a phenderfynu ystyried ceisiadau gan orsafoedd sy'n profi lefelau ymyriant uchel yn gyntaf, ac wedyn y rheini lle mae derbyniad gwael mewn rhai mannau. Rydym yn cynnig mai ceisiadau i ehangu ardal drwyddedig bresennol i ardal neu leoliad cyfagos fydd yn cael y lleiaf o flaenoriaeth.
- 1.13 Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch pa waith y dylem roi blaenoriaeth iddo ar ôl i'n cylch trwyddedu presennol ddod i ben. Ein barn ni yw y dylem ar hyn o bryd roi blaenoriaeth:
- Yn gyntaf i gynnal cylch trwyddedu byr, penodol i gynnig trwyddedau newydd;
 - Yn ail i ystyried ceisiadau am wella'r cwmpas darlledu gan orsafoedd presennol, ac ymestyn eu cwmpas;
 - Yn drydydd i ymgymryd â chynllunio technegol cyn y trwyddedu a ragwelir ar gyfer gwasanaethau DAB graddfa fach. (Bydd blaenoriaeth y gwaith hwn yn codi wrth inni agosáu at y dyddiad y gall y gwaith trwyddedu newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn gychwyn.)
- 1.14 Byddwn yn croesawu sylwadau am y cynigion sydd yn y ddogfen Ymgynghori hon. Bydd yr Ymgynghoriad yn cau ar **22 Rhagfyr 2016**.

Cyflwyniad

Pam rydym yn ymgynghori?

- 2.1 Rydym yn dod i ddiwedd ein trydydd cylch trwyddedu ar gyfer radio cymunedol analog (FM ac AM). Cychwynnodd y cylch trwyddedu presennol yn 2011 ac mae wedi'i gynnal ar sail rhanbarthau. Y dyddiad cau ar gyfer y ddau grŵp olaf o geisiadau oedd 25 Hydref 2016. Cymerir tua chwe mis i brosesu'r ceisiadau hyn.
- 2.2 Mae gorsafoedd radio cymunedol yn dod ag amrywiaeth o fuddion i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu (gweler paragraffau 2.5-2.6) a hoffem gynnig rhagor o drwyddedau newydd. Fodd bynnag, cyn cychwyn ar gylch trwyddedu arall, rydym am ystyried y ffordd orau o wneud hyn, a lefel y flaenoriaeth i'r gwaith hwn.
- 2.3 Ar hyn o bryd, mae tri datblygiad diweddar i'w hystyried mewn perthynas â dyfodol radio cymunedol:
- **Trwyddedu gwasanaethau DAB graddfa fach:** Mae Ofcom wedi adrodd i'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn ddiweddar ar ei gynllun treialu ar gyfer DAB graddfa fach². Bydd Ofcom yn cydweithio â'r Llywodraeth i benderfynu sut i gyflwyno trwyddedu ar gyfer gwasanaethau DAB graddfa fach yn y dyfodol (i gynnig dull fforddiadwy o ddarlledu digidol i drwyddedeion cymunedol a thrwyddedeion masnachol bach). Yn y cyfamser, gall Ofcom roi blaenoriaeth i gynnig rhagor o drwyddedau radio cymunedol analog, cyn i'r angen godi i ni ddechrau gweithio ar drwyddedu gwasanaethau DAB graddfa fach.
 - **Trwyddedu rhagor o wasanaethau analog (FM):** Mae nifer o grwpiau o ymgeiswyr wedi bod mewn cysylltiad â ni ac wedi gofyn pa bryd y byddant yn gallu ymgeisio am drwydded FM. Credwn fod angen i ni ddod o hyd i ffordd gyflymach o wneud hyn nag yn ein cylch trwyddedu diwethaf. Credwn y bydd targedu'n well yn ein galluogi i gadw'r cylch trwyddedu yn fyr a phenodol;
 - **Gwella'r cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol:** Mae nifer cynyddol o orsafoedd presennol yn gofyn i ni ganiatáu gwelliannau a/neu estyniadau i'w hardaloedd darlledu (ein polisi cyffredinol hyd yma yw dyfarnu trwyddedau ar gyfer cwmpas o tua 5km). Mae'n ymddangos bod hon yn adeg briodol i ailystyried ein polisi technegol.
- 2.4 Mae'r Ymgynghoriad hwn yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer gwahodd rhagor o geisiadau am wasanaethau Radio Cymunedol analog (adran 3), ac ar gyfer newidiadau yn ein polisi technegol a all arwain at welliannau yn ardaloedd darlledu'r gwasanaethau presennol yn ogystal â thrwyddedeion newydd (adran 4). Mae hefyd yn trafod pa flaenoriaethau y dylai Ofcom eu dilyn, ac yn gofyn am sylwadau (adran 5). (Bydd y posibilïadau ar gyfer gwasanaethau DAB graddfa fach yn cael eu trafod mewn ymgynghoriad yn y dyfodol.)

^{2 2} <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/radio-research/small-scale-dab-final-report>

Pa fuddion y mae dinasyddion a defnyddwyr yn eu cael o radio cymunedol?

- 2.5 Mae radio cymunedol yn fwy na deng mlwydd oed bellach. Ar adeg ysgrifennu hyn mae 244 o orsafoedd yn darlledu mewn lleoliadau ledled y DU gan ddarparu amrywiaeth fawr o wasanaethau. Mae nifer o orsafoedd wedi ennill gwobrwyon a mathau eraill o gydnabyddiaeth am eu gwaith.
- 2.6 Mae gorsafoedd yn dod â buddion lawer i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol o bob math. Fel arfer mae'r orsaf:
- Yn cael ei **rhedeg gan wirfoddolwyr** yn bennaf. Mae hyd yn oed y rheini sydd â staff cyflogedig yn dibynnu ar gymorth gan wirfoddolwyr. Ar gyfartaledd, bydd 79 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn ystod y flwyddyn ym mhob gorsaf. Mae nifer o'r cyflwynwyr yn wirfoddolwyr, a bydd eraill yn cyflawni gwahanol rolau hefyd;
 - Yn darlledu **gwybodaeth a newyddion cymunedol defnyddiol** a gafwyd oddi wrth gynghorau lleol a sefydliadau statudol eraill am faterion sy'n effeithio ar breswylwyr lleol;
 - Yn hyrwyddo gwaith gan wahanol **sefydliadau lleol**, yn cynnwys elusennau, ac yn darlledu gwybodaeth amdanynt;
 - Yn cydweithio â chyrrff addysgol lleol ar brosiectau sydd o fudd i fyfyrwyr a'r orsaf; yn darlledu **allbwn a gynhyrchwyd gan fyfyrwyr a phobl ifanc** ac yn cynnig **profiad gwaith** yn yr orsaf;
 - Yn **hyfforddi pobl** (mwy na 50 bob blwyddyn fel arfer). Yn ogystal â darparu sgiliau ymarferol a chyfle i ddysgu am gynhyrchu a chyflwyno rhaglenni a gwaith y tu ôl i'r llenni yn yr orsaf radio, maent yn meithrin hyder a sgiliau bywyd ymysg amrywiaeth fawr o bobl o wahanol gefndiroedd ac oedrannau sydd â lefelau profiad gwahanol.
 - Yn darlledu'n rheolaidd o **ddigwyddiadau lleol**, gan ddarparu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, yn ogystal â chyfle i gwrdd â chynrychiolwyr y gorsafoedd i roi adborth, dysgu mwy am yr orsaf, ac yn y blaen;
 - Yn darlledu **cyfweiliadau a thrafodaethau** am faterion lleol sy'n ysgogi'r meddwl, ac yn annog gwrandawyr i fynegi eu barn am amrywiaeth o bynciau;
 - Yn gwasanaethu **grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol**: mae rhai gorsafoedd ar gyfer grwpiau crefyddol neu ethnig lleiafrifol neu grwpiau buddiant penodol ac yn darparu'n benodol ar gyfer eu diddordebau; mae eraill yn cynnwys allbwn arbenigol ar gyfer gwahanol grwpiau mewn gwasanaeth mwy cyffredinol ar gyfer ardal benodol;
 - Yn hyrwyddo digwyddiadau **cerddorol lleol**: mae nifer o orsafoedd yn dweud bod darlledu gwaith cerddorion lleol yn bwysig iddynt;
 - Yn rhoi cyfleoedd i fusnesau bach **hysbysebu a hyrwyddo** eu cynhyrchion a gwasanaethau.

Adran 3

Trwyddedu gwasanaethau newydd

Y cefndir: beth yw'r fframwaith cyfreithiol?

- 3.1 Mae Gorchymyn Radio Cymunedol 2004 yn diffinio radio cymunedol. Mae hefyd yn addasu deddfwriaeth arall ar ddarlledu er mwyn diffinio'r fframwaith ar gyfer hysbysebu a dyfarnu trwyddedau. Caiff trwyddedau eu dyfarnu ar sail cyfres o feini prawf dethol. (Mae'r gofynion hyn wedi'u disgrifio'n llawn yn Atodiad 6.)
- 3.2 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod Ofcom yn gwahodd ceisiadau, a'n bod yn pennu lle na ellir gwneud ceisiadau. Felly ar hyn o bryd byddwn yn gwahodd ceisiadau ar adeg benodol ar gyfer ardaloedd lleol mewn rhanbarth diffiniedig ac ni fyddwn yn eu cymryd o ardaloedd eraill yn y DU. Mae hyn yn rhoi'r gallu i weithredu o'r gwaelod i fyny fel bod ymgeiswyr yn penderfynu ble maent am redeg gorsaf o fewn rhanbarth penodedig, yn hytrach na bod Ofcom yn penderfynu lleoliadau penodol ar gyfer gwasanaethau. Gan fod Ofcom yn gorfod gwahodd ceisiadau'n ffurfiol, ni allwn gymryd ceisiadau y tu allan i gyfnod gwahodd oddi wrth rywun sy'n dymuno ymgeisio ar adeg arall.

Y cefndir: sut rydym wedi trefnu cylchoedd trwyddedu hyd yn hyn

- 3.3 Cafodd Ofcom geisiadau yn gyntaf oddi wrth ddarpar drwyddedeion radio cymunedol ym mis Tachwedd 2004. Ers hynny, rydym wedi cael dros 600 o geisiadau ac wedi trwyddedu 337 o orsafoedd. Ym mis Hydref 2016, roedd 244 o orsafoedd cymunedol yn darlledu yn y DU. Mae'r trwyddedu wedi'i gynnal mewn tri chylch ymgeisio.

Y cylch ymgeisio cyntaf

- 3.4 Dechreuodd y cylch cyntaf ym Medi 2004. Penderfynwyd gwahodd ceisiadau ar sail y DU gyfan (yn hytrach nag ar sail rhanbarthau). Gwnaed hyn er mwyn osgoi'r angen am roi mwy o flaenoriaeth i rai ardaloedd na'i gilydd yn ein cylch trwyddedu cyntaf ac er mwyn sicrhau tegwch rhwng ymgeiswyr a oedd am wasanaethu ardaloedd cyfagos. O ganlyniad i hyn, roedd Ofcom yn gallu asesu ceisiadau a oedd yn cystadlu am ddyrannu'r un amledd neu rai tebyg gyda'i gilydd – gan sicrhau nad oedd penderfyniad trwyddedu ar gyfer un lleoliad yn cyfyngu'n anfwriadol ar ein gallu i ddyfarnu trwydded mewn ardaloedd cyfagos.
- 3.5 Rhagwelwyd ar y dechrau y byddai modd prosesu holl geisiadau'r cylch cyntaf o fewn blwyddyn fel y gellid cynnal ail gylch trwyddedu yn eithaf buan ar ôl hynny. Fodd bynnag, cymerwyd mwy o amser nag a fwriadwyd i asesu ceisiadau, ac roedd 107 o drwyddedau wedi'u dyfarnu erbyn i'r trwyddedau terfynol gael eu rhoi ym mis Mai 2006. (Roedd hyn yn rhagori ar y disgwyliad gan rai yn y sector cyn dechrau'r broses mai 50 o orsafoedd fyddai wedi'u trwyddedu.)

Yr ail gylch ymgeisio

- 3.6 Er mwyn mesur y galw am drwyddedau cyn dechrau'r ail gylch, gofynnodd Ofcom am 'lythyrau bwriad' oddi wrth ymgeiswyr posibl. Am fod yr ymarfer hwn wedi dangos ei bod yn debygol y byddai nifer mawr o geisiadau, penderfynodd Ofcom gynnal yr ail gylch ar sail rhanbarthau. Y bwriad wrth wneud hyn oedd gwneud y broses yn haws ei thrin i aseswyr Ofcom a rhoi mwy o eglurder i ymgeiswyr. Penderfynwyd ar y

rhanbarthau a lleoliadau wedyn ar sail llythyrau bwriad ac ystyriaethau technegol e.e. y tebygolrwydd o ymyriant rhwng gwasanaethau mewn ardaloedd cyfagos a bennwyd yn y cylch cyntaf. O ganlyniad i hyn, rhannwyd yr ail gylch yn saith proses dyfarnu rhanbarthol. Fe'i cynhaliwyd rhwng Awst 2006 a Mehefin 2010.

Y trydydd cylch ymgeisio

- 3.7 Dechreuodd y trydydd cylch ymgeisio yn Ebrill 2011. Unwaith eto, gofynnwyd am fynegiadau o ddiddordeb cyn dechrau'r cylch ymgeisio, a chafwyd 275 o ymatebion. Gan fod y galw'n parhau'n uchel, penderfynwyd eto y byddai'r ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail rhanbarthau, gan rannu'r cyfnodau ymgeisio dros gyfnod hirach ar sail y profiad a gafwyd mewn cylchoedd blaenorol. Er bod y mapiau rhanbarthol wedi'u diwygio, roedd y cylch ymgeisio wedi dilyn yr un drefn yn fras â'r un blaenorol, yn rhannol er mwyn rhoi cyfle cynnar i ymgeisio i'r rheini a oedd wedi aros hiraf h.y. y rheini yn y rhanbarthau a aseswyd gyntaf yn y cylch blaenorol.
- 3.8 Mae dros 200 o geisiadau wedi'u derbyn yn y cylch hwn. Rhagwelir y bydd y cylch wedi'i gwblhau erbyn diwedd gwanwyn 2017, pan fyddwn yn disgwyl i'n gwaith ar geisiadau a dderbynnir mewn ymateb i'r ddau wahoddiad olaf (ar gyfer Llundain ac AM mewn lleoliadau ledled y DU) gael ei gwblhau.
- 3.9 Yn ystod rhan helaeth o'r cylch hwn, ein harfer wrth wahodd ceisiadau mewn ardal benodol oedd nodi rhestr o ardaloedd lleol na fyddai ceisiadau'n cael eu cymryd ar eu cyfer, ar y sail ei bod yn annhebygol y byddai amleddau FM ar gael yn yr ardaloedd hynny. Yn achos y ddau ranbarth olaf ar gyfer dyrannu amleddau FM, roeddem wedi newid ein proses mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan ymgeiswyr y gallem fod heb gynnwys ardaloedd o'r blaen lle byddai wedi bod yn bosibl pennu amledd addas wrth ddewis safle penodol; ac mewn ymateb i'n profiad o weld ei bod yn bosibl na fyddai amleddau ar gael mewn ardaloedd a oedd wedi'u cynnwys.
- 3.10 O ganlyniad i hyn, ar gyfer y gwahoddiadau i ymgeisio yn ne-ddwyrain Lloegr (y tu allan i gylch yr M25) ac yn Llundain ac ardaloedd eraill sydd o fewn cylch yr M25, nid oeddem wedi hepgor unrhyw ardaloedd o'r broses ymgeisio ar sail argaeledd amleddau (fel roeddem wedi gwneud yn y gorffennol). Fodd bynnag, roeddem wedi newid ein proses asesu: yn gyntaf rydym yn cael gwybod a yw'r safle trosglwyddo arfaethedig yn gallu darlledu'n unol â'r gofyn, ac wedyn a oes amledd addas ar gael cyn ymgymryd ag unrhyw waith dadansoddi pellach. Gwneir hyn er mwyn sicrhau mai dim ond ceisiadau y mae amledd ar gael ar eu cyfer a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer dyfarnu trwydded radio cymunedol. Ar ôl cadarnhau bod y safle'n addas a bod amledd ar gael, byddwn yn asesu pob cais sydd ar ôl, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar allu'r ymgeisydd i gynnal ei wasanaeth arfaethedig, cyn ystyried ceisiadau ar sail meini prawf statudol eraill ar gyfer dethol. Cafwyd bod y broses newydd hon yn fwy effeithlon a thrwy roi mwy o bwyslais ar ddewis safleoedd da darparwyd proses fwy effeithiol yn ne-ddwyrain Lloegr.

Pedwerydd cylch trwyddedu radio cymunedol

- 3.11 Mae nifer bach o grwpiau ymgeisio posibl eisoes wedi dod i gysylltiad â ni ac mae rhai ohonynt yn ein hannog i wahodd ceisiadau'n fuan a'u prosesu'n gyflym.
- 3.12 Rydym hefyd wedi cael adborth yn ddiweddar gan rai gorsafoedd presennol am yr effaith o drwyddedu gorsafoedd cymunedol mewn ardaloedd sy'n gorgyffwrdd. Mae eu pryderon yn ymwneud yn bennaf ag ariannu (cystadlu am incwm o nawdd a hysbysebu lleol, a hefyd am grantiau oddi wrth gyrff ariannu lleol fel cynghorau ac elusennau), gwirfoddolwyr (colli gwirfoddolwyr da i orsaf arall) a cholli cynulleidfa (er

enghraifft, os yw'r cynulleidfaoedd a wasanaethir yn gorgyffwrdd, neu os nad yw gorsafoedd newydd yn cadw at addewidion yn eu cais i ddarlledu gwasanaeth sy'n ddigon gwahanol i'r gorsafoedd presennol). Rydym wedi ystyried y pryderon hyn wrth lunio un o'r opsiynau ar gyfer trwyddedu sydd wedi'u hawgrymu isod.

- 3.13 Rydym yn cynnal yr Ymgynghoriad hwn er mwyn gofyn am eich barn ynghylch y dull o weithredu y dylem ei fabwysiadu er mwyn cynnal cylch trwyddedu sy'n fyrrach ac yn fwy penodol na'r rhai blaenorol. Rydym hefyd am gael gwell dealltwriaeth o'r galw tebygol am drwyddedau newydd.

Mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer trwyddedau newydd

- 3.14 Yn rhan o'r Ymgynghoriad hwn rydym yn gwahodd ymgeiswyr posibl i roi ychydig o wybodaeth amdany'n nhw a'u dyheadau, i'n helpu i fesur y diddordeb mewn trwyddedau radio cymunedol newydd (mae rhagor o fanylion yn Atodiad 7). Yn fyr, hoffem wybod:

- enw'r sefydliad a'i fanylion cyswllt;
- yr ardal y mae'r grŵp yn dymuno darlledu ynddi;
- disgrifiad byr o'r gymuned a dargedir;
- lleoliad arfaethedig y trosglwyddydd (fel y gallwn wirio bod amledd ar gael).

- 3.15 Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gawn mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac ar ffurf mynegiadau o ddiddordeb mewn trwyddedau newydd, i'n helpu i benderfynu rhwng opsiynau trwyddedu (gweler paragraffau 3.19-3.20 isod). Dyna pam y mae'n bwysig bod grwpiau sy'n ymateb yn cynnwys lleoliad arfaethedig safle eu trosglwyddydd.

Amcanion ar gyfer trwyddedu rhagor o wasanaethau

- 3.16 Rydym wedi llunio set o amcanion ar gyfer trwyddedu rhagor o wasanaethau radio cymunedol analog. Rydym am gynnal proses sy'n fyrrach, yn fwy penodol ac yn gyflymach na'r cylchoedd blaenorol, ac yn cwrdd â chynifer o'n hamcanion â phosibl. Ein nod yw:

- Lle bo'n bosibl, dod â gwasanaethau radio cymunedol i gymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ac sydd am eu cael, gan ddarparu manteision cymdeithasol (buddion cymunedol) i'r cymunedau hynny;
- Rhedeg proses drwyddedu effeithlon ac amserol: ni ddylai ymgeiswyr orfod disgwyl yn rhy hir i ymgeisio ac, wedi iddynt ymgeisio, ni ddylent aros yn rhy hir am benderfyniad;
- Trefnu proses drwyddedu deg a thryloyw: dylai pob ymgeisydd fod yn hyderus bod ei gynigion yn cael eu hystyried a'u barnu yn yr un ffordd â chynigion pawb arall;
- Ceisio paru'r galw am drwyddedau â'r amleddau FM sydd ar gael.

Beth yw'r opsiynau ar gyfer y broses drwyddedu?

3.17 Mewn cylchoedd trwyddedu blaenorol, rydym wedi mabwysiadu'r dulliau trwyddedu canlynol:

- *Dull trwyddedu ledled y DU.* O dan yr opsiwn hwn, byddai gwahoddiad i gyflwyno ceisiadau am drwydded o bob rhan o'r DU ar yr un pryd, heb hepgor ardaloedd (dyma'r dull a ddefnyddiwyd gennym yn ein cylch trwyddedu cyntaf).
- *Dull seiliedig ar ranbarthau,* heb hepgor ardaloedd (dyma'r dull a ddefnyddiwyd gennym yr ddau gylch trwyddedu dilynol).

Rydym wedi penderfynu peidio â defnyddio'r dulliau hyn yn ein cylch nesaf. Yn y tablau isod rydym yn crynhoi manteision ac anfanteision y dulliau blaenorol hyn yr ydym wedi'u hystyried wrth ddod i'r farn hon.

	Manteision	Anfanteision
Dull trwyddedu ledled y DU	<p>Mae'n sicrhau'r maes ehangaf posibl i ymgeiswyr ledled y DU.</p> <p>Byddai pob ardal yn gallu cael gwasanaeth radio cymunedol newydd os yw amleddau ar gael yno.</p> <p>Mae'n bosibl bod un cyfnod ymgeisio yn fwy hwylus i ymgeiswyr ac yn llai o faich gweinyddol i Ofcom.</p>	<p>Os oedd nifer mawr o ymgeiswyr, gallai fod yn anodd ei reoli o safbwynt gweinyddol.</p> <p>Mae tystiolaeth o'r cylchoedd blaenorol yn dangos na ellir gwneud penderfyniadau'n gyflym os oes nifer mawr o geisiadau.</p> <p>O ganlyniad i hyn, gellir cael newid yn amgylchiadau rhai ymgeiswyr os oes cyfnod asesu hir rhwng cyflwyno'r cais a dyfarnu'r drwydded.</p> <p>Mae argaeledd amleddau FM yn wael iawn mewn cytrefi mawr ac os cymerir ceisiadau o bob man mae'n debygol iawn y bydd rhai'n cael eu gwrthod am na ellir dod o hyd i amleddau.</p>

	Manteision	Anfanteision
Dull seiliedig ar ranbarthau	<p>Mae'n sicrhau bod yr holl ymgeiswyr o un genedl neu ranbarth yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'i gilydd.</p> <p>Mae pob ranbarth yn debygol o greu llwyth gwaith sy'n ymarferol i Ofcom, felly bydd</p>	<p>Wrth wahodd ceisiadau, bydd un rhanbarth yn cael blaenoriaeth dros un arall fel y bydd rhai ymgeiswyr yn gorfod disgwyl yn hirach, ac mae'n bosibl y defnyddir amleddau y gellid bod wedi'u defnyddio mewn mannau eraill.</p>

	ceisiadau'n cael eu hasesu'n gyflymach nag mewn cylch a gynhelir ledled y DU.	<p>Mae'n bosibl na fydd rhai gwasanaethau da yn cael eu darlledu gan ei bod yn bosibl y byddant yn gorfod disgwyl yn hir am y cyfnod ymgeisio ar gyfer eu rhanbarth.</p> <p>Mewn rhai ardaloedd bydd amleddau heb eu defnyddio er ei bod yn bosibl bod gwasanaethau sy'n awyddus i'w defnyddio.</p> <p>Gall gymryd nifer o flynyddoedd i gwblhau cylch cyfan.</p>
--	---	---

3.18 Fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu mabwysiadu dull gweithredu newydd ar gyfer ein cylch nesaf oherwydd, ar sail ein profiad yn y gorffennol, mae'n debygol y byddai'r dulliau rydym wedi'u defnyddio yn y gorffennol yn arwain at sefyllfa lle cymerir nifer o flynyddoedd i gwblhau un cylch. Rydym am sicrhau bod unrhyw gylch newydd yn fyr (fel y gallwn symud ymlaen at waith trwyddedu DAB graddfa fach pan fo angen) ac yn rhwydd delio ag ef (gyda llai o geisiadau nag mewn cylchoedd blaenorol). Rydym am ystyried sut i wneud hyn a chyflawni'r amcanion a nodwyd ym mharagraff 3.16. Mae rhai opsiynau wedi'u rhestru isod i'w hystyried. Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno sylwadau am y rhain yn ogystal ag unrhyw awgrymiadau ychwanegol.

3.19 Opsiynau trwyddedu posibl ar gyfer cylch 4:

- Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle nad oes gwasanaeth radio cymunedol ar hyn o bryd;
- Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle mae mwy o amleddau FM ar gael;
- Targedu gwahoddiadau: gwahodd ceisiadau lle mae gennym dystiolaeth o alw (ar sail 'mynegiadau o ddiddordeb') ar ôl gwirio bod amledd FM addas ar gael;
- Gwahodd ceisiadau o ardaloedd lle mae amledd ar gael erbyn hyn (e.e. wedi i orsaf ildio ei thrwydded).

Nid yw pob un o'r opsiynau hyn yn annibynnol ar ei gilydd o anghenraid ac mae'n bosibl mai cymysgedd o rai ohonynt fydd y canlyniad gorau.

3.20 Mae'r tabl isod yn asesu manteision ac anfanteision pob un o'r opsiynau trwyddedu posibl hyn.

Opsiynau cylch 4:	Manteision	Anfanteision
a. Gwahodd ceisiadau <u>dim ond</u> o	Mae'n canolbwyntio ar ddod â radio cymunedol a'i fuddion	Bydd ymgeiswyr sydd am wasanaethu cymunedau

<p>ardaloedd lle nad oes gwasanaeth radio cymunedol ar hyn o bryd</p>	<p>cymunedol i ardaloedd a chymunedau newydd.</p> <p>Llai o effaith ar wasanaethau presennol (e.e. cystadlu am gymorth ariannol yn yr un ardal).</p> <p>At ei gilydd, mae'n fwy tebygol y bydd amleddau ar gael yn yr ardaloedd hyn (mae'r rhan fwyaf o'r cytrefi, lle mae llai o amleddau FM ar gael, yn cael eu hepgor).</p> <p>Mae'n canolbwyntio ar y galw gan ymgeiswyr yn hytrach na chyflenwad yr amleddau.</p> <p>Cyflwynir yr holl geisiadau yr un pryd (neb yn gorfod disgwyl i'r rhanbarth blaenorol orffen).</p>	<p>gwahanol ond yn gorgyffwrdd â gorsaf bresennol yn colli cyfle – fel y bydd y gymuned dan sylw.</p> <p>Os cyflwynir nifer mawr o geisiadau, gall fod yn anodd i Ofcom ddelio â nhw'n brydlon, fel y bydd rhai'n gorfod disgwyl cryn amser am benderfyniad.</p> <p>Bydd nifer o gytrefi mawr heb eu cynnwys.</p> <p>Nid yw'r gwahoddiad yn rhoi pob ystyriaeth i argaeledd yr amleddau ac mae'n bosibl y bydd rhai manau lle nad oes dim ar gael ac y bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod o ganlyniad.</p>
<p>b. Gwahodd ceisiadau <u>dim ond</u> o ardaloedd lle mae mwy o amleddau FM ar gael</p>	<p>Mae'n canolbwyntio ar ardaloedd lle mae'n debygol y bydd amleddau FM ar gael ac felly rydym yn fwy tebygol o allu trwyddedu gwasanaethau newydd.</p> <p>Canolbwyntir ar y cyflenwad o amleddau yn hytrach na'r galw gan ymgeiswyr.</p> <p>Cyflwynir yr holl geisiadau yr un pryd (neb yn gorfod disgwyl i'r rhanbarth blaenorol orffen).</p>	<p>Dull anfanwl a all gau allan manau lle gellid dod o hyd i amledd ar ôl dewis safle penodol.</p> <p>Yn ein brofiad ni, hyd yn oed mewn ardaloedd lle rydym yn disgwyl y bydd amleddau ar gael, nid ydym yn gallu dod o hyd iddynt weithiau.</p> <p>Mae'r ardaloedd yn debygol o fod yn rhai gwledig yn bennaf (a heb gynnwys y rhan fwyaf o gytrefi mawr lle ceir mwy o ymgeiswyr yn ein profiad ni).</p> <p>Os cyflwynir nifer mawr o geisiadau, gall fod yn anodd i Ofcom ddelio â nhw'n brydlon, fel y bydd rhai'n gorfod disgwyl cryn amser am benderfyniad.</p> <p>Nid yw'n ystyried y galw gan ymgeiswyr.</p>
<p>c. Targedu gwahoddiadau: gwahodd ceisiadau lle mae gennym dystiolaeth o alw ar ôl</p>	<p>Mae'n dibynnu ar fynegiadau o ddiddordeb sydd wedyn yn caniatáu i ni gynllunio'n well. Bydd Ofcom yn gwahodd ceisiadau dim ond o</p>	<p>Mae'n galw am fwy o gynllunio technegol ymlaen llaw na'r opsiynau eraill er mwyn dod o hyd i amleddau a phenderfynu dros ba ardaloedd y gellir eu</p>

<p>gwirio bod amledd addas ar gael</p> <p><i>[Nid ydym yn gwybod beth yw lefel y diddordeb mewn ymgeisio am drwyddedau – gweler Atodiad 7 gwahodd mynegiadau o ddiddordeb].</i></p>	<p>ardaloedd lle mae tystiolaeth o ddiddordeb ac amledd ar gael.</p> <p>Effeithlon ac amserol: ardaloedd llai na'r rhanbarthau presennol lle gellir rhag-weld lefel y galw. Os bydd angen, gallwn gynllunio cyfres o wahoddiadau ar gyfer gwahanol leoliadau er mwyn rheoli'r broses yn well.</p> <p>Sicrwydd ynghylch amleddau: byddwn yn gwirio bod amleddau FM ar gael cyn gwahodd ceisiadau.</p> <p>Mae'n caniatáu i ni baru'r cyflenwad o amleddau â'r galw gan ymgeiswyr posibl.</p> <p>Os nad yw amledd ar gael, byddwn yn dweud wrth y grŵp gan arbed iddo'r gost ac ymdrech o gyflwyno cais ofer.</p> <p>Mae'n caniatáu i ni gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer amleddau gan y byddwn yn gwybod am y diddordeb mewn ardaloedd cyfagos.</p>	<p>defnyddio. Bydd hyn yn cymryd cryn amser.</p> <p>Nid yw tystiolaeth o alw yn rhoi sicrwydd y bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno.</p> <p>Yn ôl lefel y diddordeb, mae'n bosibl y bydd angen cyfres o wahoddiadau i ymgeisio, fel y bydd rhai ymgeiswyr yn gorfod disgwyl i'w hardal nhw gael ei hysbysebu.</p> <p>Os bydd nifer mawr o fynegiadau o ddiddordeb (fel y cafwyd yn y gorffennol), bydd angen i Ofcom flaenoriaethu gwahoddiadau er mwyn cadw cyfnod y cylch ymgeisio yn fyr.</p>
<p>d. Gwahodd ceisiadau o ardaloedd lle mae amledd ar gael erbyn hyn (e.e. ar ôl ildio trwydded)</p>	<p>Sicrwydd o ran amleddau (a byddem yn gwahodd ceisiadau ar draws yr ardal lle gellir defnyddio'r amledd (mae rhai'n fwy 'cludadwy' na'i gilydd)).</p> <p>Bydd ardal sydd wedi colli gwasanaeth yn cael un newydd yn gyflymach nag o dan y system bresennol.</p> <p>Bydd amledd FM nad yw'n cael ei ddefnyddio'n cael ei ailddyrrannu'n weddol gyflym.</p> <p>Ar hyn o bryd mae grwpiau sydd am gymryd drosodd gorsaf sy'n methu yn gorfod negodi â'r trwyddedai i ofyn i Ofcom drosglwyddo'r</p>	<p>Mae'n bosibl na fydd grwpiau sydd am ymgeisio.</p> <p>Pam y dylai ardaloedd a gafodd wasanaeth yn barod gael blaenoriaeth dros ardaloedd sydd heb wasanaeth o gwbl?</p>

	drwydded. Byddai hyn yn cynnig ffordd arall o wneud hynny.	
--	--	--

Mewnbwn a gafwyd eisoes

- 3.21 Fel y cyfeiriwyd ato yn ein Hegwyddorion Ymgynghori (gweler atodiad 2), rydym yn cynnal trafodaethau anffurfiol â phobl a sefydliadau wrth gynllunio ymgynghoriad, lle bo hynny'n bosibl. Felly, cyn ymgymryd â'r Ymgynghoriad hwn, roeddem wedi gofyn am farn y sector radio cymunedol am ein syniadau cychwynnol. Roeddem wedi cwrdd â chynrychiolwyr corff aelodaeth y sector, Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol (CMA), a'u briffio am ein bwriad i gynnal adolygiad. Roedd y CMA wedi cynnal arolwg byr ymysg ei haelodau i fesur y diddordeb yn yr ardaloedd roeddem yn eu hystyried. Roedd y canlyniadau'n dangos bod consensws cyffredinol o blaid gwahodd rhagor o geisiadau, a bod ffafriaeth gryf i drwyddedu gorsafoddd dim ond mewn ardaloedd sydd heb wasanaethau ar hyn o bryd.
- 3.22 Roedd ymatebwyr i arolwg y CMA wedi nodi trefn eu blaenoriaethau ar gyfer Ofcom, o restr o chwe awgrym:
- dywedodd 23 (allan o gyfanswm o 57 o ymatebwyr) mai eu blaenoriaeth gyntaf oedd i Ofcom drwyddedu gwasanaethau newydd mewn ardaloedd sydd heb radio cymunedol;
 - nododd 15 mai eu blaenoriaeth gyntaf oedd asesu ceisiadau am gynyddu pŵer y gwasanaethau presennol;
 - dywedodd 12 y dylem ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer DAB graddfa fach;
 - O ran yr ail flaenoriaethau a nodwyd (49 i gyd), roedd gwasanaethau newydd mewn ardaloedd newydd wedi denu 13 pleidlais; roedd 12 wedi dewis cynllunio ar gyfer DAB graddfa fach; 11 wedi dewis cynyddu pŵer y gwasanaethau presennol; a 10 wedi pleidleisio o blaid asesu ceisiadau am symud safleoedd trosglwyddo.
- 3.23 Rydym hefyd wedi cwrdd â darparwr trosglwyddo radio cymunedol a grŵp sy'n dymuno gwneud cais am drwydded. Roeddent yn ein hannog i roi cyfle i ymgeiswyr sy'n barod i ddechrau darlledu'n fuan i wneud cais o flaen ymgeiswyr eraill. Nid ydym wedi cynnwys yr awgrym hwn am ddull o weithredu yn yr Ymgynghoriad hwn oherwydd gallai fod yn annheg ag ymgeiswyr eraill. Ein polisi arferol yw caniatáu hyd at ddwy flynedd i wasanaethau newydd gychwyn darlledu unwaith y dyfernir trwydded iddynt. Gallai lleihau'r terfyn amser ar gyfer lansio er mwyn rhoi cyfle cynnar i rai ymgeiswyr wneud cais ac atal eraill rhag cael yr un cyfle fod yn annheg ac yn wahaniaethol yn enwedig pan allai'r ymgeiswyr hynny fod yn cystadlu am yr un amledd(au).
- 3.24 Roeddem hefyd wedi ystyried dull arall a gafodd ei wrthod gennym yn ddiweddarach: gosod terfyn ar nifer y ceisiadau y byddem yn eu cymryd, neu ddewis ar hap o'r ceisiadau a gafwyd. Roeddem wedi gwrthod yr opsiwn hwn hefyd am ei fod yn un a allai fod yn annheg â rhai ymgeiswyr.
- 3.25 Roeddem yn bresennol yng nghynhadledd flynyddol y CMA (10 Medi 2016) lle roeddem wedi cynnal dwy sesiwn i drafod yr opsiynau. Cafwyd amrywiaeth o

sylwadau gan gynrychiolwyr gorsafoedd presennol, gan un ymgeisydd posibl ac eraill.

Y dull trwyddedu y mae Ofcom yn ei ffafrio

- 3.26 Gan ein bod yn gwybod eisoes fod rhywfaint o alw am drwyddedau newydd, rydym am gynnal cylch trwyddedu byr.
- 3.27 Rydym yn rhag-weld y bydd yr Ymgynghoriad hwn yn denu amrywiaeth fawr o ymatebwyr, gan gynnwys rhai a allai fod â safbwyntiau gwahanol iawn i'r rheini sydd wedi'u crybwyll uchod. Felly rydym yn trin yr adborth cychwynnol yn eithaf gofalus. Fodd bynnag, ar sail y canfyddiadau hyn, a gohebiaeth â thrwyddedeion ac ymgeiswyr posibl, ynghyd â'n profiad o redeg cylchoedd trwyddedu blaenorol, rydym wedi ffurfio barn ragarweiniol ar y dull o drwyddedu rydym yn ei ffafrio.
- 3.28 Y dull trwyddedu rydym yn ei ffafrio yw targedu gwahoddiadau (opsiwn trwyddedu (c)). Byddem yn defnyddio 'mynegiadau o ddiddordeb' yn dystiolaeth o alw er mwyn tynnu rhestr o ardaloedd, gwirio bod amleddau FM addas ar gael, ac wedyn gwahodd ceisiadau ar gyfer lleoliadau yn yr ardaloedd y mae amledd addas ar eu cyfer.
- 3.29 Os bydd y mynegiadau o ddiddordeb a gawn yn dangos bod lefel o alw na fyddem yn gallu delio â hi mewn cylch trwyddedu byr, mae'n bosibl y bydd angen i ni osod terfyn ar nifer yr ardaloedd rydym yn barod i wahodd ceisiadau ar eu cyfer. Os felly, byddai angen i ni benderfynu sut i flaenoriaethu'r ardaloedd gwahodd, a byddem yn ystyried adborth i'r Ymgynghoriad hwn am opsiynau trwyddedu wrth benderfynu sut i wneud hyn.
- 3.30 Byddwn yn ystyried ein barn gychwynnol am y dull trwyddedu a ffafriwn yng ngoleuni'r ymatebion a gawn i'r Ymgynghoriad hwn. Bydd angen hefyd i ni gydbwyso'r galw am drwyddedau newydd a'r galw am welliannau yn y cwmpas darlledu, ac estyniadau iddo, gan wasanaethau presennol, fel y trafodir yn adran 4 o'r ddogfen ymgynghori hon.

Cwestiwn ymgynghori:

C1. Mae Ofcom am gynnal cylch trwyddedu byr, penodol ar gyfer radio cymunedol. Y dull rydym yn ei ffafrio yw gwahodd ceisiadau mewn ardaloedd lle mae gennym dystiolaeth o alw, ar ôl gwirio bod amledd addas ar gael. A ydych yn cytuno â'r dull hwn? Os nad ydych, rhowch wybod i ni am eich rhesymau a pha opsiwn rydych yn ei ffafrio.

Sylwer: rydym hefyd yn gofyn i ymgeiswyr posibl anfon atom eu mynegiad o ddiddordeb mewn ymgeisio am drwydded (mae rhagor o fanylion yn Atodiad 7). Os byddwn yn penderfynu gwahodd ceisiadau pellach am drwyddedau radio cymunedol, byddwn yn ystyried y wybodaeth a gawn yn y mynegiadau o ddiddordeb hyn, ynghyd ag ymatebion eraill i'r Ymgynghoriad, wrth benderfynu rhwng opsiynau trwyddedu.

Adran 4

Newidiadau yn ein polisi technegol

Y cefndir

- 4.1 Yn ôl yn 2004, wrth ymgynghori am y tro cyntaf ar drwyddedu radio cymunedol³ roeddem wedi amlinellu ein polisi technegol arfaethedig:
- *“We propose that, on FM, community radio stations will typically be services with a coverage radius of up to 5km. In rural areas where the availability of FM allows, a larger coverage radius on FM may be sanctioned. Elsewhere if larger coverage areas are required, AM will, in most cases, be the means of achieving it.*
 - *“It will utilise frequencies which could not be viable for commercial services. Frequencies in both the BBC and non-BBC FM ranges will be sought”.*
- 4.2 Yn y Datganiad a gyhoeddwyd o ganlyniad i'r Ymgynghoriad, nodwyd bod *“broad agreement that a 5km radius was appropriate for most community radio services. However, some potential applicants urged Ofcom to consider, on a case by case basis, licensing services with larger areas on FM in rural locations, or that we consider allowing a service to broadcast on more than one transmitter, if appropriate”.*
- 4.3 Ein penderfyniad oedd *“maintain the policy put forward in our consultation document”.* Roeddem wedi dweud hefyd: *“we may consider, on a case-by-case basis, whether to license a service utilising more than one transmitter, if this is a technically efficient way to serve the target community”.*
- 4.4 Roeddem wedi penderfynu mai'r terfyn pŵer uchaf arferol fyddai 25 wat (y plân). Roeddem o'r farn bod y lefel pŵer hon yn ddigonol, yn y rhan fwyaf o achosion, i roi cwmpas darlledu o tua 5km. Yn y rhan fwyaf o lawer o achosion cafwyd bod hyn yn wir. Yn ogystal â hyn, drwy gadw at feincnod ar gyfer lefel y pŵer, mae'r broses cynllunio wedi bod yn symlach (fel bod modd cynllunio rhagor o orsafoedd yn weddol gyflym) ac nid oedd angen cael cynifer o antenâu trosglwyddo â phatrymau cyfeirio cymhleth (sy'n gallu ychwanegu at y gost).

Ein polisi presennol ar y cwmpas darlledu

- 4.5 Ni chafwyd bron dim newid yn ein polisi ar y cwmpas darlledu ers dechrau trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol yn 2005. Mae wedi'i amlinellu yn ein dogfen 'Notes of guidance for community radio applicants and licensees'⁴ fel a ganlyn:
- Fel arfer bydd gorsafoedd radio cymunedol ar FM mewn ardaloedd trefol yn cael eu trwyddedu ar gyfer cwmpas darlledu o hyd at 5km;

³ https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/comm_radio

⁴ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/37209/notesofguidance.pdf

- Yn achos gwasanaethau 'cymunedau buddiant' trefol, lle mae'r gymuned a wasanaethir mewn ardal sydd â chwmpas o fwy na 5km, dim ond amleddau AM a ddyrennir fel arfer.
 - Mewn ardaloedd gwledig lle mae mwy o amleddau FM addas ar gael (rhannau o Gymru a'r Alban, er enghraifft) a chwmpas darlledu o fwy na 5km yn cael ei gynnig, gallem drwyddedu gwasanaethau o'r fath ar FM.
 - Mewn ardaloedd gwledig lle mae argaeledd gwael o ran amleddau FM addas a chwmpas darlledu o fwy na 5km yn cael ei gynnig, dim ond amleddau AM a gaiff eu dyrannu.
- 4.6 Mae mwyafrif y gorsafoedd radio cymunedol wedi'u trwyddedu i weithredu ar bŵer o 25 wat ar y mwyafrif, o un safle trosglwyddydd ac ar un amledd FM. Yr eithriadau a gafwyd yw:
- Lle mae'r gymuned a wasanaethir mewn lleoliad gwledig lle mae'r boblogaeth ar wasgar, a lle roedd digon o amleddau i ganiatáu eu trwyddedu i weithredu ar bŵer uwch a/neu i ddefnyddio mwy nag un amledd (fel y nodwyd yn ein polisi uchod).
 - Lle roedd yr ymyriant o'r tu allan ar yr amledd a oedd ar gael yn annerbyniol o uchel a dim amledd arall ar gael.
 - Lle rhoddwyd trwydded i gwmpasu ardal na ellir ei gwasanaethu â phŵer pelydru o 25 wat (oherwydd materion yn ymwneud â'r safle a'r dirwedd leol fel arfer), a lle na fyddai atebion eraill, fel cynyddu uchder yr antena, yn gwella'r cwmpas darlledu yn ddigonol.
- 4.7 Nid ydym wedi trwyddedu pwerau uwch lle byddai hynny wedi achosi ymyriant i wasanaethau trwyddedig presennol.

Cwmpasau darlledu (*coverage areas*): pa broblemau sydd gan y gorsafoedd?

- 4.8 Mae'r arfer cyffredinol o ganiatáu i orsafoedd weithredu ar 25 wat a ddilynwyd gennym hyd yn hyn yn haws ac yn gyflymach ei weinyddu na dull mwy hyblyg, ond mae'n bosibl na fydd yn rhoi signal o'r un ansawdd ym mhob achos ac mae rhai gorsafoedd presennol ac ymgeiswyr yn teimlo nad yw'n rhoi digon o sylw i anghenion gorsafoedd penodol, a all fod yn wahanol.
- 4.9 Rydym wedi ystyried ein profiad ein hunain, wedi casglu adborth oddi wrth drwyddedeion dros amser, ac wedi mynychu cynhadledd y CMA yn 2016 i egluro ein syniadau dechreuol a gofyn am wybodaeth a sylwadau. Rydym wedi dod i'r casgliad, ar sail hyn, mai'r problemau mwyafrif cyffredin a brofir gan y gorsafoedd presennol, a'r rhesymau a gynnigir wrth wneud cais am newidiadau mewn cwmpasau darlledu, yw:
- **Delio ag ymyriant:** mae lefelau'r ymyriant o'r tu allan ar rai amleddau'n uwch na'i gilydd, a gall hyn leihau'r cwmpas darlledu. Mae hyn yn amrywio o amledd i amledd, ac o le i le;
 - **Y dewis o safle trosglwyddo:** roeddem wedi disgwyl y byddai gorsafoedd yn dewis y safle trosglwyddo gorau posibl, ond mae nifer heb wneud hynny am wahanol resymau – yn ymwneud â chost yn bennaf. Er enghraifft:

- mae cost y safle gorau y tu hwnt i gyrraedd yr orsaf radio cymunedol;
 - mae safle wedi'i gynnig ar gost is neu am ddim;
 - cymhlethdod cysylltu'r stiwdio â'r safle trosglwyddo;
 - diffyg cyngor technegol da (mae'n bosibl na fydd gorsaf yn gallu fforddio cyngor proffesiynol).
- **Derbyniad gwael mewn rhannau o'r cwmpas darlledu:** ceir ardaloedd lle mae derbyniad gwael neu ddiffyg gwasanaeth yn ardaloedd trwyddedig rhai gorsafoedd. Gall hyn fod o ganlyniad i natur y dirwedd neu annibendod trefol, er enghraifft. Bydd gorsafoedd am ystyried opsiynau ar gyfer gwella derbyniad ar draws eu hardal drwyddedig;
 - **Ceisiadau am ehangu'r cwmpas darlledu:** mae rhai gorsafoedd wedi gofyn am ddarlledu i ardal fwy nag y mae eu trwydded bresennol yn caniatáu. Rhai o'r rhesymau a roddir yw: gofynion partner-asiantaeth (e.e. cyngor lleol); gweithredu mewn ardal wledig lle byddai cymunedau cyfagos yn elwa o'r gwasanaeth ac yn annhebygol o gael gwasanaeth iddyn nhw eu hunain; yr angen i fod yn fwy cynaliadwy (er enghraifft, gwerthu hysbysebion dros ardal ehangach);
 - **Newidiadau demograffig lleol:** os yw'r boblogaeth a wasanaethir wedi symud, neu'r boblogaeth o fewn y cwmpas darlledu wedi newid, gall gorsaf ofyn am addasu ei chwmpas darlledu.

Ailystyried ein polisi ar gwmpasau darlledu

- 4.10 Ar ôl ystyried y mewnbwn rydym wedi'i gael eisoes ar ein polisi technegol ar gyfer radio cymunedol, credwn ei bod yn briodol ei ailystyried. Rydym yn cynnig y byddwn, yn y dyfodol, yn ystyried ceisiadau i wella cwmpas darlledu'r ardal drwyddedig bresennol ar gyfer gwasanaeth lle gallwn wneud hynny, ac yn gweithredu'n fwy hyblyg wrth drwyddedu gwasanaethau newydd, yn lle gosod terfyn o 25 wat ar bŵer yn y rhan fwyaf o achosion. Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau i ymestyn yr ardal drwyddedig bresennol i ardal neu leoliad cyfagos fel yr esboniwn isod. O ganlyniad i hyn rydym wedi drafftio polisi newydd arfaethedig ar gwmpasau darlledu (gweler paragraff 4.17).
- 4.11 Mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau ar yr hyn y gallwn ei wneud. Un ystyriaeth yw'r gost cyfle o newid mewn polisi technegol. Os cytunwn ar newid ar gyfer un gwasanaeth, er enghraifft drwy gynyddu pŵer neu drwyddedu amleddau ychwanegol (ar gyfer trosglwyddyddion ategol), bydd hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei wneud yn yr ardaloedd o gwmpas (ac weithiau mewn ardaloedd eraill sy'n eithaf pell i ffwrdd). Gall hyn ein hatal rhag trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol newydd, neu rhag caniatáu newidiadau mewn gwasanaethau presennol eraill ar yr un amledd neu rai agos.
- 4.12 Mae dau ffactor ychwanegol y byddai'n rhaid pwysu a mesur eu heffaith cyn ystyried derbyn ceisiadau penodol: yr effaith dechnegol bosibl ar wasanaethau eraill, ac a ellir caniatáu newidiadau yn yr ardal drwyddedig o dan y drwydded bresennol.
- 4.13 **Yr effaith ar wasanaethau eraill:** ni allwn gytuno ar newidiadau a fydd yn achosi ymyriant ag amleddau a ddefnyddir gan wasanaethau trwyddedig eraill. Felly yn achos rhai gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, mae'n bosibl na fydd modd cytuno ar unrhyw newidiadau yn eu paramedrau trosglwyddo. (DS Byddwn yn

adolygu ein gweithdrefnau cynllunio amleddau o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried newidiadau yn nyluniad derbynyddion radio mewn ceir a chartrefi, er enghraifft.)

- 4.14 **Yr ardal drwyddedig:** mae pob un o'r gorsafoedd presennol wedi'i thrwyddedu i wasanaethu ardal ddiffiniedig, a'r cwmpas darlledu trwyddedig ar fap yr orsaf yw'r ardal y mae wedi'i thrwyddedu i'w gwasanaethu. Mae Deddf Darlledu 1990 (Adran 106(4) i (6) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004) yn darparu y caiff Ofcom awdurdodi ymestyn ardal drwyddedig i unrhyw ardal gyfagos:

a) os na fyddai'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn yr ardal drwyddedig, neu;

b) os yw'n credu y gellir cyfiawnhau'r cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn amgylchiadau eithriadol yr achos dan sylw.

Os bydd gorsaf yn gofyn am newid ei chwmpas darlledu, ac yn enwedig os bydd gorsaf yn gofyn i ni ystyried ychwanegu lleoliadau eraill at ei hardal ddarlledu bresennol, bydd yn rhaid i ni asesu a yw hyn yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf hyn.

- 4.15 Mae Ofcom yn cynnig y bydd yn asesu chwe mater craidd ym mhob achos wrth benderfynu a fydd yn cydsynio i geisiadau i ymestyn cwmpas darlledu'r ardal drwyddedig bresennol i ardal gyfagos. Rydym yn gofyn am eich barn am y materion craidd hyn. Y rhain yw:

- a ellid credu'n rhesymol fod y cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn "arwyddocaol". Wrth benderfynu ar hyn, bydd Ofcom yn ystyried maint y cynnydd yn y boblogaeth yn sgil ymestyn yr ardal drwyddedig, a hefyd maint yr ardal gyfagos;
- a oes gan yr ardal y mae'r trwyddedai yn dymuno ymestyn ei gwmpas iddi berthynas â'r ardal drwyddedig bresennol, neu a oes tebygrwydd rhyngddynt (e.e. a fyddai ymestyn y cwmpas yn briodol o gofio am gymuned darged ddatganedig gorsaf). Mae ymestyn y cwmpas i gynnwys pentrefi bach o gwmpas tref neu ddinas ganolog yn llai tebygol o gael ei ystyried yn "arwyddocaol" nag ymestyn y cwmpas i gynnwys canolfan boblogaeth fawr arall). Bydd pob achos yn wahanol ac yn cael ei farnu ar sail ei rinweddau;
- a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a fyddai'n cyfiawnhau cynnydd y gellid credu'n rhesymol ei fod yn "arwyddocaol". (Er enghraifft, gallem ystyried cynigion yn y cais gwreiddiol; ceisiadau am ymestyn y cwmpas darlledu i gynnwys pobl yn yr un gymuned â'r gymuned a wasanaethir sydd mewn ardaloedd cyfagos sydd heb wasanaeth digonol; a newidiadau mewn demograffeg leol);
- os oes angen adnoddau amledd ychwanegol i hwyluso'r estyniad a geisir, a yw adnoddau addas ar gael;
- effaith cynnydd o faint priodol mewn adnoddau amledd (h.y. trosglwyddyddion ategol, neu bŵer trosglwyddydd presennol i ddarlledu i'r ardal estynedig honno) ar argaeledd amleddau dros ardal ehangach (o lawer);

- yr effaith bosibl ar wasanaethau radio trwyddedig eraill. Byddwn yn ystyried y graddau y byddai'r estyniad arfaethedig i'r cwmpas darlledu yn gorgyffwrdd â gorsafoedd radio masnachol a chymunedol presennol. Os oes cyfyngiad ariannu ar drwydded radio cymunedol (terfyn ar incwm o hysbysebu ar yr awyr a nawdd o £15,000 y flwyddyn) o ganlyniad i orgyffwrdd â gwasanaeth masnachol, nid yw'n debygol y byddwn yn cytuno ar estyniad a fyddai'n gorgyffwrdd i fwy o raddau â'r gwasanaeth hwnnw. Os byddai estyniad yn ymestyn y cwmpas darlledu i ardal graidd gwasanaeth masnachol neu gymunedol (er enghraifft, i'r brif dref y mae'r orsaf honno'n ei gwasanaethu) gan orgyffwrdd ag ef, mae'n bosibl na fyddwn yn cydsynio i gais.
- 4.16 Bydd angen i orsaf wneud cais, a bydd angen iddi gyflwyno dadl resymegol dros wneud cais am ymestyn ei hardal drwyddedig bresennol i ardal neu leoliad cyfagos, ynghyd â thystiolaeth ategol (er enghraifft, tystiolaeth ddemograffig neu dystiolaeth briodol arall neu wybodaeth sy'n berthnasol i'w dadl).

Polisi arfaethedig newydd ar gwmpasau darlledu

4.17 Ein polisi arfaethedig newydd ar gwmpasau darlledu radio cymunedol yw:

- Ar gyfer pob gorsaf newydd, byddwn yn ystyried y gymuned y mae'r orsaf yn ei gwasanaethu, a lleoliad y gymuned honno cyn penderfynu ar yr ardal ddarlledu drwyddedig.
- Mewn ardaloedd trefol a maestrefol, bydd gorsafoedd radio cymunedol ar FM yn cael eu trwyddedu fel arfer ar gyfer cwmpas darlledu o tua 5km.
- Mewn ardaloedd gwledig lle mae mwy o amleddau FM addas ar gael, gellir trwyddedu cwmpas darlledu mwy.
- Ar AM, bydd gorsafoedd radio cymunedol yn cael eu trwyddedu fel arfer ar gyfer cwmpas darlledu o tua 10km.
- Fel arfer, bydd gorsafoedd yn cael eu trwyddedu ar un amledd o un safle trosglwyddo. Y pŵer mwyaf a drwyddedir fel arfer yw 25 wat y plân. Gellir ystyried pwerau mwy os rhagwelir y bydd lefelau uchel o ymyriant o'r tu allan, neu i sicrhau lefelau signal digonol ar draws y cwmpas darlledu penodedig. Er hynny, ni fydd pwerau mwy yn cael eu hystyried fel arfer i ddelio â'r effaith o ddewis safle gwael ar gyfer y trosglwyddydd. (Os defnyddir pwerau mwy, gall hynny alw am ddefnyddio antenâu trosglwyddo cyfeiriadol er mwyn diogelu gwasanaethau trwyddedig eraill.)

Gwella'r cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol

- Gellir ystyried gwelliannau i gwmpas o fewn yr ardal drwyddedig bresennol (e.e. cynyddu pŵer neu ychwanegu trosglwyddydd ategol) er mwyn gwasanaethu'r gymuned benodedig yn ddigonol (er enghraifft, i helpu i ddelio â signal sy'n wael oherwydd ymyriant neu faterion yn gysylltiedig â'r dirwedd leol).

Ymestyn y cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol

- Gall gorsaf wneud cais i ymestyn ei gwmpas darlledu trwyddedig. Mae Deddf Darlledu 1990 (Adran 106(4) i (6) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004) yn darparu y caiff Ofcom awdurdodi ymestyn ardal drwyddedig i ardal gyfagos; dim ond os na fyddai'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn yr ardal drwyddedig, neu; os yw'n credu bod cyflawnhad dros ehangu'r ardal drwyddedig yn amgylchiadau eithriadol yr achos dan sylw. Bwriadwn ddefnyddio chwe mater craidd wrth ystyried ceisiadau. Nodir y rhain ym mharagraff 4.15 uchod.)

Beth yw'r gwahanol ffyrdd o wella cwmpasau darlledu?

4.18 Mae gwahanol atebion a all wella'r cwmpas darlledu neu ei ymestyn. Ni fydd pob un ohonynt yn ddewis ymarferol ar gyfer pob gorsaf. Y rhain yw:

- Cynyddu uchder yr antena;
- Symud y trosglwyddydd i safle mwy manteisiol;
- Cynyddu pŵer pelydru uchaf y gwasanaeth;
- Trosglwyddyddion ategol: darlledu ar drosglwyddyddion ychwanegol, ar amleddau gwahanol fel arfer (mewn rhai amgylchiadau gall fod yn dechnegol ymarferol defnyddio'r un amledd ar gyfer mwy nag un trosglwyddydd yn yr un ardal drwyddedig);
- Newid amledd: er enghraifft, drwy ddefnyddio amledd sy'n agored i lai o ymyriant o'r tu allan.

Mae prif fanteision ac anfanteision yr opsiynau hyn wedi'u hamlinellu isod:

Opsiwn	Manteision	Anfanteision
Cynyddu uchder yr antena	Gall fod yn ateb cost isel	Mae'n bosibl y bydd angen cael caniatâd cynllunio. Bydd yr antena'n fwy agored i ymyriant o wasanaethau trwyddedig eraill. Gall achosi ymyriant sy'n effeithio ar orsafoedd radio trwyddedig eraill.
Symud y trosglwyddydd i safle gwahanol	Gall wella'r signal yn sylweddol	Goblygiadau o ran cost i'r trwyddedai. Mae'n bosibl y bydd rhai gwrandawyr presennol yn colli'r gwasanaeth o ganlyniad i newid ôl troed y cwmpas darlledu.

		<p>Mae'n bosibl y bydd yn ymestyn y cwrpas darlledu y tu hwnt i'r ardal drwyddedig ac mae'n bosibl y bydd angen gosod cyfyngiadau ar antenâu er mwyn atal y signal rhag cyrraedd ardaloedd eraill.</p>
Cynyddu'r pŵer	<p>Bydd yn darparu signal cryfach os yw'r orsaf yn agored i lefelau uchel o ymyriant o'r tu allan.</p> <p>Gall ehangu'r cwrpas darlledu.</p>	<p>Ni fydd yn gwella'r signal os yw'r trosglwyddydd mewn lleoliad gwael e.e. lle mae'r dirwedd yn cyfyngu'r signal.</p> <p>Mae'n dibynnu ar yr amledd. Bydd angen ystyried ymyriant sy'n effeithio ar wasanaethau presennol a gallai'r trwyddedai wynebu costau ychwanegol os bydd angen dyluniad mwy cymhleth ar gyfer yr antena i gyfyngu'r signal.</p> <p>Goblygiadau o ran cost os bydd angen trosglwyddydd newydd.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd yn ymestyn y cwrpas darlledu y tu hwnt i'r ardal drwyddedig ac mae'n bosibl y bydd angen gosod cyfyngiadau ar antenâu er mwyn atal y signal rhag cyrraedd ardaloedd eraill.</p>
Trosglwyddyddion ategol	<p>Mae'n ddefnyddiol ar gyfer targedu ardaloedd penodol na fyddai'n bosibl eu cyrraedd drwy newid safle'r trosglwyddydd neu gynyddu'r pŵer (e.e. 'tyllau' yn yr ardal ddarlledu). Rhai pŵer isel fel arfer.</p>	<p>Goblygiadau o ran cost wrth gaffael safle newydd a chyfarpar ychwanegol.</p> <p>Bydd angen safle addas ar gyfer cyswllt ailddarlledu (i fwydo'r gwasanaeth i'r trosglwyddydd ategol i'w ddarlledu).</p> <p>Am resymau technegol, mae'n bosibl y bydd amledd y trosglwyddydd ategol yn wahanol i'r prif amledd, felly gellid wynebu costau am ailfrandio a marchnata.</p>
Newid amledd	<p>Signal gwell am fod llai o ymyriant o'r tu allan</p>	<p>Byddwn yn dyrannu'r amledd gorau sydd ar gael wrth drwyddedu gwasanaeth am y tro cyntaf felly rydym yn rhag-weld y bydd rhai achosion lle bydd</p>

	<p>dewis gwell ar gael.</p> <p>Bydd yr amleddau sydd ar gael yn dibynnu ar leoliad y safle.</p> <p>Costau am gyfarpar ac ailfrandio a marchnata'r orsaf.</p>
--	--

Y dull gweithredu y mae Ofcom yn ei ffafrio

- 4.19 Os byddwn yn gweld bod galw mawr am wella cwmpasau darlledu o fewn ardaloedd trwyddedig, mae'n bosibl y bydd angen i ni benderfynu sut i flaenoriaethu ceisiadau o'r fath. Yn ein barn ni, ceisiadau gan orsafoedd sy'n agored i lefelau arwyddocaol o ymyriant a ddylai gael eu hystyried gyntaf, ac wedyn gorsafoedd lle mae derbyniad gwael mewn rhai manau yn eu cwmpas darlledu. Byddai llai o flaenoriaeth i geisiadau am ymestyn yr ardal drwyddedig bresennol i ardal gyfagos. Mae rheolau statudol ar gyfer ystyried ceisiadau o'r fath, a gallent gael mwy o effaith ar wasanaethau eraill, felly mae'n debygol y bydd angen mwy o amser i'w hystyried a'u penderfynu.
- 4.20 Rydym yn barod i ddefnyddio unrhyw un o'r opsiynau a nodwyd uchod. Bydd dulliau gwahanol yn briodol mewn amgylchiadau gwahanol, ond y dull rydym yn ei ffafrio yw ystyried cynyddu uchder yr antena ar y safle presennol yn gyntaf, ac yn ail bod gorsafoedd yn chwilio am safle gwell i'w trosglwyddydd na'r lleoliad presennol. At ei gilydd, mae'r opsiynau hyn yn debygol o gael llai o effaith ar wasanaethau presennol eraill, felly dylid ystyried y rhain yn gyntaf.
- 4.21 Cynyddu pŵer fydd y drydedd flaenoriaeth, os yw'n bosibl. Gall trosglwyddydd ategol pŵer isel fod yn ddewis addas i rai darlledwyr, yn enwedig i dargedu ardaloedd penodol na ellir eu cyrraedd drwy ddulliau eraill (er enghraifft, lle mae'r dirwedd yn atal y signal). Newid amledd fydd ein dewis olaf.
- 4.22 Bydd angen i orsafoedd ystyried yr opsiynau uchod a chyflwyno cynnig i'w ystyried gan Ofcom. (Nid yw Ofcom yn darparu gwasanaeth cyngor technegol.)

Ym mha ffyrdd eraill y gallwn helpu gorsafoedd radio cymunedol i ddelio â materion technegol?

- 4.23 Yn ein profiad ni, mae llawer o orsafoedd yn methu cael gafael ar arbenigedd technegol addas ac ni fydd ganddynt yr arian sydd ei angen ym mhob achos i dalu am gymorth proffesiynol. Er ein bod yn parhau i argymhell bod gorsafoedd yn gofyn am gyngor technegol proffesiynol wrth ddewis safle neu ofyn am newidiadau, byddwn hefyd yn gwneud yr hyn a allwn i helpu gorsafoedd i ddeall materion technegol. (Fodd bynnag, mae ein hadnoddau'n gyfyngedig ac ni allwn gynnig gwasanaeth cynghori llawn i drwyddedeion ynghylch sut i wella eu cwmpas darlledu.)
- 4.24 Yn ddiweddar rydym wedi dechrau cynnig gwybodaeth dechnegol fwy cyffredinol yn y cyfnod ar ôl dyfarnu trwydded, pan fydd gorsaf yn gwneud ei threfniadau ar gyfer trosglwyddo'r signal. Byddwn yn anfon copi o'n map o gwmpas darlledu arfaethedig yr orsaf at y trwyddedai cyn dechrau ar y gwaith ffurfiol o glirio'r amledd er mwyn sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom a'r orsaf o'r ardal sy'n debygol o dderbyn y gwasanaeth. Rydym hefyd yn cynhyrchu ffilm fyr sy'n rhoi cyngor

technegol ynghylch dewis safle trosglwyddo addas. Bydd y ffilm hon ar gael ar ein gwefan maes o law.

Cwestiynau ymgynghori:

C2 a) Gorsafoedd radio cymunedol newydd: A ydych yn cytuno â'n polisi diwygiedig arfaethedig ar gwmpasau darlledu yng nghyswllt gwasanaethau radio cymunedol newydd? Os nad ydych, rhowch wybod i ni am eich rhesymau.

b) Gwelliannau i'r cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol: A ydych yn cytuno â'n cynnig i ystyried ceisiadau i wella'r cwmpas darlledu yn yr ardal drwyddedig ar gyfer gwasanaethau trwyddedig presennol? Os nad ydych, rhowch wybod i ni am eich rhesymau.

c) Estyniadau i'r cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol: A ydych yn cytuno â'n cynnig ar gyfer ystyried ceisiadau i ymestyn ardal drwyddedig bresennol gwasanaeth radio cymunedol i ardal gyfagos? Byddwn yn ystyried ceisiadau o'r fath ar sail meini prawf statudol, a bwriadwn ystyried chwe mater craidd i'n helpu i benderfynu a fyddwn yn cydsynio i gais neu beidio. A ydych yn cytuno â'r materion craidd rydym yn cynnig eu hystyried? Os nad ydych, rhowch eich sylwadau.

Adran 5

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Ar ba feysydd y dylai Ofcom ganolbwyntio?

- 5.1 Os byddwn yn penderfynu gwahodd ceisiadau pellach am drwyddedau radio cymunedol newydd, neu'n gwneud newidiadau yn ein polisi technegol, bydd angen i ni benderfynu ar ba feysydd y byddwn yn canolbwyntio. Felly rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch y gwaith y dylai Ofcom roi blaenoriaeth iddo.
- 5.2 Mae gwaith cyfredol Ofcom ar radio cymunedol ('busnes fel arfer') wedi cynyddu gyda nifer y gwasanaethau trwyddedig. Bydd hyn yn parhau beth bynnag fydd ein penderfyniadau am y materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n cynnwys:
- gwaith technegol a gweinyddol sy'n gysylltiedig â dechrau darlledu gwasanaethau newydd;
 - prosesu ceisiadau am ymestyn trwyddedau;
 - rheoli trwyddedau (yn cynnwys amrywio trwyddedau, newidiadau yng nghwmnïau'r trwyddedeion, ceisiadau am drosglwyddo trwyddedau);
 - delio â chwynion ac ymchwiliadau ynghylch cydymffurfio â thrwyddedau;
 - asesu cydymffurfiaeth â rheolau ariannu (drwy adroddiadau cyllid blynyddol);
 - asesu a gweithredu ar geisiadau am newidiadau mewn trefniadau darlledu;
 - gweinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol.
- 5.3 Yn ogystal â hyn, ymhen tua blwyddyn, mae Ofcom yn disgwyl y bydd yn cynllunio a thrwyddedu gwasanaethau DAB newydd ar raddfa fach. Ar hyn o bryd, mae Ofcom (gyda chymorth DCMS) yn treialu dull arloesol ar gyfer darlledu DAB a allai gynnig ffordd hyfwrdd a chynaliadwy i orsafoedd radio llai gael dechrau darlledu'n ddigidol. Mae'r system hon, a elwir yn DAB graddfa fach, yn defnyddio cyfarpar trosglwyddo rhad i gwmpasu ardaloedd llai na'r gwasanaethau DAB sefydledig. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau DAB graddfa fach yn cael eu darlledu mewn 10 lleoliad treialu ledled y DU er mwyn rhoi prawf ar agweddau technegol ac ymarferol y dull newydd.
- 5.4 Mae Ofcom wedi adrodd i Lywodraeth ar ganlyniadau'r cynllun treialu, ac rydym yn disgwyl y bydd fframwaith parhaol yn cael ei sefydlu fel y gellir sefydlu gwasanaethau DAB graddfa fach yn barhaol. Er ei bod yn debygol o gymryd cryn amser i sefydlu'r trefniadau trwyddedu angenrheidiol, bydd angen ystyried y datblygiad arfaethedig hwn wrth gynllunio mathau eraill o waith analog (yn benodol bydd angen ymgymryd â gwaith cynllunio technegol cyn trwyddedu).

Barn Ofcom am y gwaith y dylai roi blaenoriaeth iddo

- 5.5 Fel y nodwyd ar ddechrau'r ddogfen ymgynghori hon, heblaw am gynllunio ar gyfer DAB ar raddfa fach, mae dwy agwedd arall ar waith radio cymunedol rydym yn eu

hystyried yng nghyd-destun ein blaenoriaethau: trwyddedu rhagor o wasanaethau radio cymunedol analog; gwella cwmpasau darlledu'r gwasanaethau radio cymunedol presennol; cynllunio ar gyfer trwyddedu gwasanaethau DAB ar raddfa fach.

- 5.6 Yn ein barn ni, ar ôl i'n trydydd cylch trwyddedu ddod i ben, dylem roi blaenoriaeth yn gyntaf i gynnal cylch trwyddedu newydd byr a phenodol. Rydym yn rhag-weld y byddwn yn cyhoeddi Datganiad ar ôl yr Ymgynghoriad hwn ym mis Chwefror 2017. Ar ôl hyn, yn ôl yr opsiwn trwyddedu a ddewisir, mae'n bosibl y bydd angen ymgymryd â gwaith ar gynllunio amleddau FM ar gyfer y cylch trwyddedu nesaf (y pedwerydd) cyn gwahodd ceisiadau am drwyddedau yn ystod gwanwyn 2017. Byddem yn ceisio trefnu bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau newydd yn cael ei osod yn y cyfnod pan fydd ein gwaith ar y ceisiadau olaf yn ein cylch trwyddedu cyfredol (y trydydd) yn dod i ben. (Rydym yn disgwyl y bydd hyn ar ddiwedd gwanwyn/dechrau haf 2017.)
- 5.7 Ein hail flaenoriaeth fydd ystyried gwelliannau yng nghwmpasau darlledu'r gwasanaethau presennol ac estyniadau iddynt. Os bydd galw mawr am y rhain, mae'n bosibl y bydd angen blaenoriaethu'r ceisiadau. Ym mharagraffau 4.19 – 4.22 rydym yn awgrymu mai gorsafoedd sy'n agored i lefelau arwyddocaol o ymyriant a ddylai gael eu hystyried gyntaf, ac wedyn gorsafoedd sydd â derbyniad gwael o fewn eu cwmpas darlledu. Byddai llai o flaenoriaeth i ddelio â cheisiadau am ehangu'r cwmpas darlledu.
- 5.8 Ein trydydd blaenoriaeth - ymgymryd â chynllunio technegol cyn y trwyddedu a ragwelir ar gyfer gwasanaethau DAB ar raddfa fach. Bydd blaenoriaeth y gwaith hwn yn cynyddu wrth inni agosáu at y dyddiad pan fydd y gwaith trwyddedu newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn yn gallu cychwyn.

Cwestiwn ymgynghori:

C3. A ydych yn cytuno â chynigion Ofcom ar gyfer ei flaenoriaethau yn ei waith ar radio cymunedol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau i ni.

Atodiad 1

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut i ymateb

- A1.1 Mae Ofcom yn gofyn am gyflwyno barn a sylwadau ysgrifenedig ar y materion a godwyd yn y ddogfen hon **erbyn 5pm ar Ddydd Iau 22 Rhagfyr 2016**.
- A1.2 Bydd yn well gan Ofcom dderbyn ymatebion ar y ffurflen ar-lein ar y we yn <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/cr-future-licensing/>, gan y bydd hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd os gallech ein helpu drwy lenwi'r ddalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), er mwyn nodi a oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn ffurflen ar-lein ar y we.
- A1.3 Ar gyfer ymatebion hirach i'r ymgynghoriad – yn enwedig y rheini sydd wedi'u hategu gan siartiau, tablau a data eraill – anfonwch neges e-bost i susan.williams@ofcom.org.uk gan atodi'ch ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.
- A1.4 Fel arall, gellir postio neu ffacsio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan farcio teitl yr ymgynghoriad arnynt.
- Susan Williams
Broadcast Licensing Team
Content & Media Policy
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
- A1.5 Sylwer nad oes angen copi papur arnom yn ychwanegol at y fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod derbyn yr ymatebion os byddant yn cael eu cyflwyno ar y ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A1.6 Byddai o gymorth os gallech gynnwys atebion uniongyrchol yn eich ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon, sydd wedi'u rhestru gyda'i gilydd yn Atodiad 4. Byddai hefyd o gymorth os gallwch egluro pam rydych yn coleddu'ch barn a sut y byddai cynigion Ofcom yn effeithio arnoch chi.

Rhagor o wybodaeth

- A1.7 Os ydych am drafod y materion a chwestiynau sydd wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes angen cyngor arnoch ynghylch y ffordd briodol o ymateb, cysylltwch â Susan Williams ar 020 7783 4319.

Cyfrinachedd

- A1.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater penodol yn cael gweld y farn a fynegwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Felly byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan fel arfer yn www.ofcom.org.uk, wrth iddynt ddod i law os oes modd. Os ydych yn credu y dylai'ch ymateb gael ei gadw'n

gyfrinachol, byddwch cystal â nodi pa ran ohono neu a ddylai'r ymateb cyfan gael ei gadw'n gyfrinachol, gan nodi'r rhesymau. Hefyd byddwch cystal â rhoi'r rhannau cyfrinachol mewn atodiad ar wahân.

- A1.9 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw rhan neu'r cyfan o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.10 Sylwer hefyd y bydd rhagdybiaeth bod yr hawlfraint a'r holl eiddo deallusol arall mewn ymatebion wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio gan Ofcom. Mae eglurhad pellach o'r ffordd y mae Ofcom yn ymdrin â hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>

Y camau nesaf

- A1.11 Ar ôl y cyfnod ymgynghori, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym mis Chwefror 2017.
- A1.12 Sylwer bod modd cofrestru i gael diweddariadau am ddim drwy'r e-bost i dynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan Ofcom. Mae rhagor o fanylion yma: <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates>

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.13 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau bod y broses o ymateb i ymgynghoriad yn un mor hawdd â phosibl. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn ein hegwyddorion ar gyfer ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.14 Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch sut y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg cymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Byddem yn falch iawn o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fynd ati'n fwy effeithiol i ofyn am farn y grwpiau neu unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.15 Fel arall, os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, gallwch gysylltu â Steve Gettings, Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sy'n eiriolwr ar ymgynghori i Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601

E-bost: Steve.Gettings@ofcom.org.uk

Atodiad 2

Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

A2.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ym mhob ymgynghoriad ysgrifenedig â'r cyhoedd:

Cyn yr ymgynghoriad

A2.2 Os yw'n bosibl, byddwn yn cynnal trafodaethau anffurfiol â phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael gwybod a yw ein syniadau'n mynd i'r cyfeiriad iawn. Os na fydd gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori mor fyr a syml â phosibl gyda chrynodeb na fydd yn hirach na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor rhwydd â phosibl i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, gallem ddarparu fersiwn fyrrach mewn iaith glir i sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu sbario amser fel arall i roi eu barn.

A2.5 Byddwn yn ymgynghori am hyd at 10 wythnos yn ôl effaith ddichonol ein cynigion.

A2.6 Bydd person o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn estyn at y nifer mwyaf o bobl a sefydliadau sy'n ymddiddori yn y canlyniad i'n penderfyniadau. 'Eiriolwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif swyddog i gysylltu ag ef i roi barn am y ffordd rydym yn rhedeg ein hymgynghoriadau.

A2.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater penodol yn gweld y farn a fynegwyd gan eraill yn ystod ymgynghoriad. Fel arfer byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion a gawn ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn egluro sut roedd barn y rheini a oedd yn gysylltiedig wedi helpu i ffurfio'r penderfyniadau hynny.

Atodiad 3

Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

- A3.1 Er mwyn bod yn dryloyw a dilyn arferion rheoliadol da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk.
- A3.2 Rydym wedi llunio dalen gyflwyno ar gyfer ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn os byddwch yn anfon dalen gyflwyno gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb ar-lein). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach ac i gadw cyfrinachedd lle bo'n briodol.
- A3.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghoriad drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth, yn benodol, i'r unigolion a sefydliadau hynny sydd ag adnoddau cyfyngedig neu sy'n anghyfarwydd â'r materion dan sylw drwy gael mwy o wybodaeth ar gyfer eu hymateb. Felly mae Ofcom yn annog ymatebwyr i lenwi eu dalen gyflwyno mewn ffordd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion ar ôl eu cael, yn hytrach nag aros nes bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.
- A3.4 Bydd yn well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein ar y we sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os byddwch yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lawrlwytho copi electronig o'r ddalen gyflwyno hon mewn fformat Word neu RTF o'r adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan yn <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>
- A3.5 Byddwch cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb rydych yn credu y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad i'ch ymateb ar wahân gan nodi'ch rhesymau am gredu na ddylid cyhoeddi'r rhannau hyn o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a phrofiad personol. Os ydych yn dymuno i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y rhain ar y ddalen gyflwyno yn unig fel na fydd yn rhaid i ni olygu'ch ymateb.

Dalen gyflwyno ar gyfer ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (chi'ch hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn credu ei bod yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Yr ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol neu'n rhoi'r gallu i'ch adnabod)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy'r e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Bydd Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion ar ôl eu cael. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os yw'n gopi papur)

Atodiad 4

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Adolygiad o drwyddedu a pholisi technegol radio cymunedol

A4.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwahodd rhagor o geisiadau am wasanaethau Radio Cymunedol analog, ac ar gyfer newidiadau yn ei bolisi technegol a fyddai'n arwain at welliannau ar gyfer cwmpasau darlledu'r gwasanaethau presennol ac unrhyw drwyddedeion newydd. Mae hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch sut y dylai Ofcom flaenoriaethu ei waith ar radio cymunedol.

C1. Mae Ofcom am gynnal cylch trwyddedu byr, penodol ar gyfer radio cymunedol. Y dull rydym yn ei ffafrio yw gwahodd ceisiadau mewn ardaloedd lle mae gennym dystiolaeth o alw, ar ôl gwirio bod amledd addas ar gael. A ydych yn cytuno â'r dull hwn? Os nad ydych, rhowch wybod i ni am eich rhesymau a pha opsiwn rydych yn ei ffafrio.

C2. a) Gorsafoedd radio cymunedol newydd: A ydych yn cytuno â'n polisi diwygiedig arfaethedig ar gwmpasau darlledu yng nghyswllt gwasanaethau radio cymunedol newydd? Os nad ydych, rhowch wybod i ni am eich rhesymau.

b) Gwelliannau i'r cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol: A ydych yn cytuno â'n cynnig i ystyried ceisiadau i wella'r cwmpas darlledu yn yr ardal drwyddedig ar gyfer gwasanaethau trwyddedig presennol? Os nad ydych, rhowch wybod i ni am eich rhesymau.

c) Estyniadau i'r cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau presennol: A ydych yn cytuno â'n cynnig ar gyfer ystyried ceisiadau i ymestyn ardal drwyddedig bresennol gwasanaeth radio cymunedol i ardal neu leoliad cyfagos? Byddwn yn ystyried ceisiadau o'r fath ar sail meini prawf statudol, a bwriadwn ystyried chwe mater craidd i'n helpu i benderfynu a fyddwn yn cydsynio i gais neu beidio. A ydych yn cytuno â'r materion craidd rydym yn cynnig eu hystyried? Os nad ydych, rhowch eich sylwadau

C3. A ydych yn cytuno â chynigion Ofcom ar gyfer ei flaenoriaethau yn ei waith ar radio cymunedol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau i ni.

Atodiad 5

Asesu Effeithiau

Cyflwyniad

- A5.1 Mae'r dadansoddiad yn yr atodiad hwn yn asesiad effaith yn unol â'r diffiniad yn adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf).
- A5.2 Dylech anfon unrhyw sylwadau am yr asesiad effaith hwn atom ni erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau cyn penderfynu a fyddwn yn gweithredu ein cynigion.
- A5.3 Mae asesiadau effaith yn ffordd werthfawr o asesu gwahanol opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn a ffafriwyd. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn adran 7 o'r Ddeddf, ac yn golygu bod rhaid i ni gynnal asesiadau effaith fel arfer lle byddai ein cynigion yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle mae newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Fodd bynnag, fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal a chyhoeddi asesiadau effaith mewn perthynas â mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi. I gael rhagor o wybodaeth am ein dull o gynnal asesiadau effaith, gweler y canllawiau 'Better policy-making: Ofcom's approach to impact assessment' sydd ar ein gwefan:
https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/57194/better_policy_making.pdf

Buddiant y dinesydd a'r defnyddiwr

- A5.4 Rydym yn disgrifio yn adran 2, paragraffau 2.5 a 2.6, y buddion sy'n deillio o radio cymunedol i ddinasyddion mewn ardaloedd radio cymunedol.

Amcan polisi Ofcom

- A5.5 Ein nod yw parhau i gefnogi radio cymunedol, gan sicrhau bod gorsafoedd newydd a phresennol yn gallu parhau i ddod â chynnwys lleol a buddion eraill i gymunedau ledled y DU. Wrth gynllunio a blaenoriaethu ein gwaith ar radio cymunedol, rydym am ystyried barn y sector a rhanddeiliaid eraill.
- A5.6 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwahodd rhagor o geisiadau am wasanaethau radio cymunedol analog, ac ar gyfer newidiadau yn ei bolisi technegol a fyddai'n arwain at welliannau ar gyfer cwmpasau darlledu nifer o'r gwasanaethau presennol a thrwyddedeion newydd. Mae hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch sut y dylai Ofcom flaenoriaethu ei waith ar radio cymunedol.
- A5.7 Rydym yn rhag-weld y bydd amser gennym ar ddiwedd ein cylch trwyddedu presennol, a chyn y gallai llywodraeth ei gwneud yn ofynnol i ni drwyddedu gwasanaethau newydd ar DAB graddfa fach (sy'n debygol o alw am ddeddfwriaeth newydd), i gynnig rhagor o drwyddedau ac ystyried ceisiadau am wella cwmpasau darlledu gwasanaethau presennol.
- A5.8 Yr opsiynau a ystyriwyd

- Dim newidiadau. Mae hyn yn golygu y byddai trwyddedu analog newydd yn dod i ben ar ddiwedd ein cylch trwyddedu presennol, ac na ellid ystyried nifer o geisiadau am wella neu ymestyn cwmpasau darlledu (o dan y polisi presennol mae lle i ystyried newid safle trosglwyddo neu gynyddu uchder antena);
- Gwahodd rhagor o geisiadau am drwyddedau radio cymunedol FM. Rydym yn ffafrio cylch trwyddedu byr penodol ac yn awgrymu nifer o wahanol opsiynau;
- Newid ein polisi technegol ar gyfer radio cymunedol i ganiatáu dull wedi'i deilwra'n agosach at anghenion pob gorsaf. Gallai hyn arwain at wella cwmpasau darlledu rhai gwasanaethau gan arwain, mewn rhai achosion, at ymestyn cwmpasau darlledu i ardal neu leoliad cyfagos. Trafodir nifer o wahanol ffyrdd o sicrhau gwelliannau, yn ogystal â chwe 'mater craidd' rydym yn cynnig eu hystyried pan fydd trwyddedeion yn gofyn am estyniad i'w cwmpas darlledu.

Dadansoddi'r gwahanol opsiynau

A5.9 Byddai'r gwahanol opsiynau uchod yn cael effeithiau gwahanol ar ein rhanddeiliaid. Rydym yn trafod y rhain yn fyr isod.

A5.10 Dim newidiadau.

- **Ymgeiswyr am drwydded radio cymunedol:** Mae nifer o ymgeiswyr dichonol am drwyddedau newydd wedi gofyn i ni gynnal cylch trwyddedu arall. Os byddwn yn rhoi'r gorau i drwyddedu ar ddiwedd ein cylch presennol, ni fydd cyfle i'r ymgeiswyr hyn wneud cais yn y dyfodol agos.
- **Dinasyddion:** Ni fydd pobl yn y cymunedau sydd i'w gwasanaethu gan orsafoedd newydd dichonol yn cael y manteision cymdeithasol a'r buddion eraill o radio cymunedol.
- **Gorsafoedd cymunedol presennol:** Gellir defnyddio unrhyw amleddau sydd ar gael i wella cwmpasau darlledu'r gwasanaethau presennol, yn lle gwasanaethau newydd. Ni fydd cystadlu ychwanegol oddi wrth wasanaethau newydd a allai fod wedi goryffwrdd â nhw.
- **Gorsafoedd radio masnachol:** Ni fydd cystadlu ychwanegol am wrandawyr neu hysbysebwr oddi wrth wasanaethau newydd a allai fod wedi goryffwrdd â nhw.
- **Busnesau lleol:** Dim cyfleoedd newydd iddynt hysbysebu neu hyrwyddo eu busnes yn eu cymuned leol ar orsafoedd radio cymunedol newydd.

A5.11 Cylch byr penodol ar gyfer trwyddedu radio cymunedol. Yr opsiwn rydym yn ei ffafrio yw cylch trwyddedu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd lle mae tystiolaeth o alw yn ogystal ag amleddau addas:

- **Ymgeiswyr:** Gallant ymgeisio am drwyddedau FM mewn cylch sy'n fyrrach (hyd at un flwyddyn) na'r cylch diweddaraf. Os bydd nifer mawr o ymgeiswyr dichonol a'n bod yn credu na fyddai'n ymarferol cynnal y cylch trwyddedu o fewn yr amser sydd ar gael i ddelio â phob un ohonynt, byddwn yn ystyried sut i reoli'r galw. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n bosibl na fydd rhai ymgeiswyr dichonol yn cael cyfle i ymgeisio ar yr adeg hon.
- **Dinasyddion:** Bydd y rheini yn y cymunedau a wasanaethir gan orsafoedd newydd yn cael cyfle i fwynhau'r holl fuddion o radio cymunedol, gan gynnwys

cyfleoedd i gymryd rhan wrth redeg y gorsafoedd a chynhyrchu allbwn. Byddant hefyd yn cael mwy o ddewis o ran gwasanaethau radio.

- **Gorsafoedd cymunedol presennol:** Os byddwn yn trwyddedu gorsafoedd newydd sydd â chwmpasau darlledu sy'n gorgyffwrdd â gwasanaethau presennol, gallent wynebu rhywfaint o gystadleuaeth. Gall hynny fod am gyllid lleol (grantiau, hysbysebu), gwirfoddolwyr (a all ddewis ymuno â gorsaf newydd), partneriaid (os bydd asiantaethau lleol am weithio gyda gorsaf sy'n cystadlu), gwrandawyr (er y gall gorsaf newydd dargedu cymuned wahanol) neu amleddau (os byddwn yn trwyddedu gwasanaethau newydd, yna mae'n bosibl y bydd llai o amleddau ar gael i wella cwmpasau darlledu'r gwasanaethau presennol). Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd gorsafoedd presennol a newydd sy'n gorgyffwrdd yn elwa o gydweithio, er enghraifft, drwy gynlluniau i rannu rhaglenni neu brosiectau eraill ar y cyd, a chodi proffil radio cymunedol yn yr ardal.
- **Gorsafoedd radio masnachol:** Os byddwn yn trwyddedu gorsafoedd cymunedol newydd sydd â chwmpas sy'n gorgyffwrdd â gwasanaethau radio masnachol presennol, gallent wynebu rhywfaint o gystadlu am incwm o hysbysebu⁵ neu wrandawyr. Nid oes tystiolaeth bod hyn yn broblem arwyddocaol lle ceir gorgyffwrdd eisoes. Gallent gael mantais o ganlyniad i orgyffwrdd rhwng gorsafoedd drwy gyflogi staff a hyfforddwyd gan weithredwyr radio cymunedol. Mae gorsafoedd cymunedol yn hyfforddi gwirfoddolwyr a bydd rhai'n symud i swyddi mewn gorsafoedd radio masnachol (neu'r BBC).
- **Busnesau lleol:** Byddant yn cael cyfleoedd i hysbysebu a hyrwyddo eu busnes yn eu cymuned leol ar orsafoedd radio cymunedol newydd, ar gost isel.

A5.12 Newidiadau yn ein polisi technegol i ganiatáu i orsafoedd presennol a thrwyddedeion newydd wneud cais am welliannau yn eu cwmpas darlledu:

- **Ymgeiswyr:** Ar hyn o bryd mae gwasanaethau'n cael eu trwyddedu fel arfer ar gyfer cwmpasau darlledu bach (cwmpas o 5km). Drwy adolygu ein polisi technegol, byddai ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am gwmpas darlledu ehangach sy'n fwy addas i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu ac i dopograffi lleol, er enghraifft. Fodd bynnag, mae diffyg amleddau FM addas i gynnal gwasanaethau ar bŵer uwch yn y rhan fwyaf o leoliadau trefol a maestrefol ledled y DU; a pho fwyaf y cwmpas y gwneir cais amdano, mwyaf fydd y risg o fethu â dod o hyd i amledd addas. Felly mae'n bosibl na fydd pob ymgeisydd yn gallu cael cwmpas darlledu ehangach.
- **Dinasyddion:** Os cytunwn i wella cwmpas darlledu'r orsaf o fewn yr ardal drwyddedig bresennol, bydd y boblogaeth leol yn cael signal cryfach sy'n llai agored i ymyriant a bydd llai o fannau lle mae derbyniad gwael. Mewn achosion lle cytunir i ymestyn yr ardal drwyddedig bresennol i ardal neu leoliad cyfagos, bydd gwrandawyr newydd nad oeddent o fewn yr ardal ddarlledu flaenorol yn elwa o gael mwy o ddewis o wasanaethau radio a'r manteision o radio cymunedol.
- **Gorsafoedd cymunedol presennol:** Byddant yn elwa am fod mwy o bobl leol yn gallu gwrandao ar y gwasanaeth. Gall hyn hybu cynaliadwyedd o gael rhagor o gyfranogwyr a gwirfoddolwyr dichonol; mwy o hysbysebwyd (oherwydd gallai mwy

⁵ Mae gorsafoedd radio cymunedol yn ddarostyngedig i reolau sy'n cyfyngu swm yr incwm y gallant ei gael bob blwyddyn o werthu hysbysebion ar yr awyr a nawdd. Gweler y canllawiau [yma](#) am ragor o wybodaeth.

o bobl wrando ar y gwasanaeth yn y cwmpas estynedig); mwy o bartner-asiantaethau os bydd y cwmpas darlledu'n debycach i'w dalgylch eu hunain. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd modd cael newidiadau ar gyfer rhai gorsafoedd am fod y sbectrwm amleddau mewn llawer o ardaloedd trefol a maestrefol yn orlawn. Bydd y rheini sy'n gwneud newidiadau technegol yn debygol o wynebu costau ychwanegol. Bydd rhai gorsafoedd yn cael bod gwasanaethau radio eraill yn glywadwy yn eu cwmpas darlledu ar ôl gwella neu ymestyn eu cwmpas darlledu, a gall y rhain gystadlu am wrandawyr, hysbysebwr ac yn y blaen.

- **Radio masnachol:** Gallai gorsafoedd wynebu mwy o gystadlu am incwm o hysbysebu a/neu wrandawyr oddi wrth wasanaethau cymunedol sy'n gorgyffwrdd ar ôl gwella eu signal. (Nid oes tystiolaeth bod hyn yn broblem arwyddocaol lle ceir gorgyffwrdd eisoes.)
- **Busnesau lleol:** Cyfleoedd i hysbysebu a hyrwyddo eu busnes ar orsafoedd cymunedol sydd â signal cryfach, neu gwmpas darlledu ehangach, nag o'r blaen.

Yr opsiwn a ffeirir

A5.13 Hoffem wahodd rhagor o geisiadau am drwyddedau radio cymunedol newydd, drwy gynnal cylch trwyddedu byr, penodol. Yn ogystal â hyn, hoffem wneud newidiadau yn ein polisi technegol er mwyn galluogi gorsafoedd presennol i wneud cais am welliannau i'w cwmpas darlledu o fewn yr ardal drwyddedig bresennol, os yw'n bosibl, yn ogystal ag ymestyn eu cwmpas darlledu i ardal neu leoliad cyfagos yn amodol ar ofynion statudol a'n 'materion craidd'. Yn ein barn ni, dylem roi blaenoriaeth yn gyntaf i gynnal cylch trwyddedu byr ychwanegol, a'r ail flaenoriaeth rydym yn ei ffafrio yw ystyried ceisiadau am wella cwmpasau darlledu o fewn yr ardal drwyddedig bresennol a cheisiadau am ymestyn yr ardal drwyddedig bresennol i ardal neu leoliad cyfagos. Ein trydedd flaenoriaeth fyddai gwaith cynllunio technegol cyn y gwaith trwyddedu a ragwelir ar gyfer gwasanaethau DAB graddfa fach.

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

- A5.14 Mae'n ofynnol o dan statud i Ofcom asesu effaith ddichonol ei holl swyddogaethau, polisiâu, prosiectau ac arferion ar wahanol grwpiau cydraddoldeb. Mae Ofcom hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb tebyg ond gwahanol o dan ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon (Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998).
- A5.15 Yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, rydym wedi sgrinio ein cynigion polisi ar Radio Cymunedol i asesu eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da.
- A5.16 Mae sector radio cymunedol iach yng Ngogledd Iwerddon ac ar ôl cynnal tri chylch trwyddedu blaenorol yn 2005, 2007 a 2013 mae 12 gorsaf yn darlledu ar hyn o bryd. Mae'r gorsafoedd hyn yn darparu ar gyfer amrywiaeth o grwpiau daearyddol a buddiant arbennig ar draws Gogledd Iwerddon, yn cynnwys gorsafoedd sy'n darparu ar gyfer siaradwyr Gwyddeleg a Sgoteg Ulster.
- A5.17 O dan y cylch ymgeisio arfaethedig ar gyfer trwyddedau FM ychwanegol, byddai ymgeiswyr dichonol yng Ngogledd Iwerddon yn gallu mynegi diddordeb mewn ymgeisio am drwydded radio cymunedol felly, mewn egwyddor, nid ydym yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niweidiol ar ymgeiswyr sy'n berthnasol i'r categorïau cydraddoldeb Adran 75 yng Ngogledd Iwerddon.

- A5.18 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd rhai ardaloedd lle nad oes amleddau FM ar gael ac felly na fyddem yn gallu symud ymlaen i hysbysebu trwydded. Byddwn yn monitro amgylchiadau o'r fath yng Ngogledd Iwerddon i ganfod unrhyw effaith bosibl ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da.
- A5.19 Gyda golwg ar y newidiadau arfaethedig yn ein polisi technegol, mae rhai gorsafoedd radio cymunedol yng Ngogledd Iwerddon wedi mynegi diddordeb yn rheolaidd mewn ymestyn eu cwmpasau darlledu. Felly byddai'r newid yn ein polisi'n gallu creu effaith gadarnhaol ar gyfer trwyddedeion.
- A5.20 Yn gyffredinol, ein casgliad yw mai effaith niweidiol debygol ein polisiâu arfaethedig yw 'dim' mewn perthynas â'r holl gategoriâu cyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da, ac nad oes angen rhagor o asesu ar hyn o bryd.

Atodiad 6

Gofynion statudol ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol

Dyma grynodeb o'r prif ofynion statudol ar gyfer trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol. Mae'n cynnwys:

- Nodweddion gwasanaethau radio cymunedol
- Diffiniad o 'gymuned'
- Diffiniad o 'fantais gymdeithasol'
- Meini prawf dethol
- Gofynion deddfwriaethol eraill
- Cyfyngiadau ar berchenogaeth

(Mae dyfyniadau uniongyrchol o'r ddeddfwriaeth mewn teip italig.)

Nodweddion gwasanaethau radio cymunedol

Drwy ddiffiniad, mae 'gwasanaeth radio cymunedol' yn 'wasanaeth lleol' ^[6] a chanddo'r nodweddion canlynol (sydd wedi'u nodi yn Erthygl 3 o Orchymyn Radio Cymunedol 2004):

(1) It is a characteristic of community radio services that they are local services provided primarily

(a) for the good of members of the public, or of particular communities, and

(b) in order to deliver social gain,

rather than primarily for commercial reasons or for the financial or other material gain of the individuals involved in providing the service.

(2) It is a characteristic of every community radio service that it is intended primarily to serve one or more communities (whether or not it also serves other members of the public).

(3) It is a characteristic of every community radio service that the person providing the service –

(a) does not do so in order to make a financial profit by so doing, and

(b) uses any profit that is produced in the provision of the service wholly and exclusively for securing or improving the future provision of the service, or for delivery of social gain to members of the public or the community that the service is intended to serve.

(4) It is a characteristic of every community radio service that members of the community it is intended to serve are given opportunities to participate in the operation and management of the service.

(5) It is a characteristic of every community radio service that, in respect of the provision of that service, the person providing the service makes himself accountable to the community that the service is intended to serve.

⁶ Drwy ddiffiniad, mae gwasanaeth yn 'wasanaeth lleol' os yw'n wasanaeth darlledu sain sydd (heb fod yn wasanaeth cenedlaethol) yn cael ei ddarparu er mwyn iddo: (1) cael ei ddarlledu heblaw o loeren yn unig; a (2) cael ei ddarlledu i'w dderbyn mewn ardal benodol yn y Deyrnas Unedig.

Diffiniad o 'gymuned'

"Community" means –

(a) the persons who live or work or undergo education or training in a particular area or locality, or

(b) persons who (whether or not they fall within paragraph (a)) have one or more interests or characteristics in common.

Diffiniad o 'fantais gymdeithasol'

In relation to a community radio service, "social gain" means the achievement, in respect of individuals or groups of individuals in the community that the service is intended to serve, or in respect of other members of the public, of the following objectives:

- the provision of sound broadcasting services to individuals who are otherwise underserved by such services,*
- the facilitation of discussion and the expression of opinion,*
- the provision (whether by means of programmes included in the service or otherwise) of education or training to individuals not employed by the person providing the service, and*
- the better understanding of the particular community and the strengthening of links within it.*

Gall mantais gymdeithas hefyd gynnwys "the achievement of other objectives of a social nature and, in particular":

- the delivery of services provided by local authorities and other services of a social nature and the increasing, and wider dissemination, of knowledge about those services and about local amenities;*
- the promotion of economic development and of social enterprises;*
- the promotion of employment;*
- the provision of opportunities for the gaining of work experience;*
- the promotion of social inclusion;*
- the promotion of cultural and linguistic diversity;*
- the promotion of civic participation and volunteering.*

Meini prawf dethol

Wrth benderfynu a fydd neu i bwy y bydd Ofcom yn rhoi trwydded radio cymunedol, rhaid i Ofcom roi sylw i'r meini prawf dethol yn Adran 105(1) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004):

Adran 105(1)(a) – Y gallu i gynnal gwasanaeth:

The ability of each of the applicants for the licence to maintain, throughout the period for which the licence would be in force, the service which he proposes to provide.

Adran 105(1)(b) – Darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau'r gymuned berthnasol:

The extent to which any such proposed service would cater for the tastes and interests of persons comprising the relevant community, and, where it is proposed to cater for any particular tastes and interests of such persons, the extent to which the service would cater for those tastes and interests.

Adran 105(1)(c) – Ehangu dewis a’r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau sy’n goryffwrdd: *The extent to which any proposed service would broaden the range of programmes available by way of local services to persons living in the area or locality in which it would be provided, and, in particular, the extent to which the service would be of a nature or have a content distinct from that of any other local service the licence for which would overlap [7] with the licence for the proposed service.*

Adran 105(1)(d) – Tystiolaeth o alw neu gefnogaeth: *The extent to which there is evidence that, amongst persons living in that area or locality, there is a demand for, or support for, the provision of the proposed service.*

Adran 105 (1)(e) – Graddau’r fantais gymdeithasol: *The extent to which the provision of any such proposed service would result in the delivery of social gain to the public or relevant community.*

Adran 105(1)(f) – Bod yn atebol i’r gymuned: *The provision that each of the applicants proposes to make in order to render himself accountable to the relevant community in respect of the provision of the proposed service.*

Adran 105(1)(g) – Mynediad at y cyfleusterau a hyfforddiant i’w defnyddio: *The provision each of the applicants proposes to make to allow for access by members of the relevant community to the facilities to be used for the provision of the service and for their training in the use of those facilities.*

Gofynion deddfwriaethol eraill

Mae gofynion ychwanegol yn Adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a’i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004, fel y’i diwygiwyd yntau gan Orchymyn Radio Cymunedol (Diwygio) 2010 a Gorchymyn Radio Cymunedol (Diwygio) 2015).

Wrth ystyried a fydd neu i bwy (ac ar ba amodau) y bydd Ofcom yn rhoi trwydded radio cymunedol, rhaid i Ofcom roi sylw i’r angen i sicrhau na fydd unrhyw wasanaeth a ddarperir o dan y drwydded honno’n gwneud niwed gormodol i hyfywedd economaidd unrhyw wasanaeth radio masnachol lleol arall (gweler y cyfeiriadau at adran 105(3) isod).

Adrannau 105(4) a (5) – cyfyngiadau ar incwm o hysbysebu a nawdd

Heb amharu ar natur gyffredinol y gofyniad hwnnw o ran effaith economaidd, mae adran 105(4) o Ddeddf Darlledu 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod Ofcom yn gosod amodau i sicrhau, o ran effaith, y bydd unrhyw wasanaeth radio cymunedol yn cael ei wahardd rhag cymryd unrhyw incwm perthnasol (‘relevant income’) [8] o hysbysebu am dâl a nawdd i raglenni heblaw yn y cysylltiadau canlynol:

⁷ Mae goryffwrdd wedi’i ddiffinio fel a ganlyn: *two local sound broadcasting licences overlap if (but only if) the potential audience of the service provided under either of those licences includes 50 per cent or more of the potential audience of the service provided under the other licence.*

⁸ Drwy ddiffiniad, mae ‘relevant income’, mewn perthynas ag unrhyw drwydded radio cymunedol, yn golygu *any payment or other financial benefit (whether direct or indirect) attributable to the provision of the service under that licence which any relevant person has received, will receive or is or will be entitled to receive in the financial year in question.* Yn y cyd-destun hwn, mae ‘relevant person’ yn golygu *the holder of that licence and every person who is connected with him.*

- (i) lwfans refeniw penodedig ('fixed revenue allowance') o gyfanswm o £15,000 ym mlwyddyn ariannol y trwyddedai am incwm perthnasol o'r fath – mae'r eithriad hwn yn gymwys i unrhyw wasanaeth radio cymunedol lle mae'r gwasanaeth hwnnw'n gorgyffwrdd ag unrhyw wasanaeth radio masnachol lleol sy'n gwasanaethu cynulleidfa ddichonol nad yw'n fwy na 150,000 o bobl sydd wedi cyrraedd 15 mlwydd oed neu'n hŷn;
- (ii) lwfans refeniw penodedig o gyfanswm o £15,000 ym mlwyddyn ariannol y trwyddedai am incwm perthnasol o'r fath ynghyd â chyfran o gyfanswm yr incwm perthnasol (a bennwyd gan Ofcom yn y drwydded), ond na fydd yn fwy na 50% o gyfanswm yr incwm perthnasol (gan ddiystyru'r lwfans refeniw penodedig) ar gyfer y drwydded dan sylw yn y flwyddyn honno – mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r holl wasanaethau radio cymunedol heblaw gwasanaeth radio cymunedol y cyfeiriwyd ato yn (i) uchod. Dylid nodi bod gwasanaeth radio cymunedol sy'n gorgyffwrdd ag unrhyw wasanaeth radio masnachol lleol sy'n gwasanaethu cynulleidfa ddichonol nad yw'n fwy na 150,000 o bobl sydd wedi cyrraedd 15 mlwydd oed neu'n hŷn, sydd wedi'i amrywio ar unrhyw adeg yn unol ag adran 106(1A)(e) o Ddeddf Darlledu 1990, hefyd yn dod o dan yr eithriad hwn.

Adran 105(3) – Effaith economaidd ddichonol

Where OFCOM have published a notice under section 104(1), in the case of a proposal of theirs to grant a licence to provide a community radio service, or where OFCOM is considering a variation of such a licence under section 86(5) to include conditions set out in subsection (5) [9] they shall, in determining—

(a) whether, or to whom, to grant the licence in question (or, as the case may be, whether to vary the licence in question pursuant to section 86(5)), and

(b) if they grant it, the terms on which it is granted (or, as the case may be, the terms of the variation of the licence in question pursuant to section 86(5)),

have regard to the need to ensure that any service provided under that licence does not prejudice unduly the economic viability of any other local service, other than a community radio service.

Cyfyngiadau ar berchenogaeth

Mae personau sydd wedi'u hanghymhwyso yn cynnwys:

- Unrhyw berson oni bai fod Ofcom wedi'i fodloni ei fod yn berson 'addas a phriodol' i ddal trwydded. [10] (Mae'r ffurflen gais yn cynnwys 'datganiad' sy'n cynnwys cwestiynau i alluogi Ofcom i gyflawni'r amcan hwn.)
- Unrhyw berson nad yw'n gorff corfforaethol. [11]

⁹ Mae is-adran 5 o adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990 yn cynnwys y gofyniad a nodwyd uchod i Ofcom osod amodau i sicrhau bod trwyddedau radio cymunedol penodol yn cael cymryd 'lwfans refeniw penodedig' o gyfanswm o £15,000 ynghyd â chyfran o gyfanswm yr incwm perthnasol (a bennwyd gan Ofcom yn y drwydded) hyd at 50% o gyfanswm yr incwm perthnasol (gan ddiystyru'r lwfans refeniw penodedig) ar gyfer y drwydded dan sylw yn y flwyddyn honno.

¹⁰ Adran 3(3)(a) o Ddeddf Darlledu 1990.

- Unrhyw gorff corfforaethol sy'n dal o leiaf un drwydded berthnasol o dan y Ddeddf Darlledu ('relevant Broadcasting Act licence') [12] neu gorff sy'n gysylltiedig â pherson sy'n dal un neu ragor o drwyddedau o'r fath. [13] Mae'r trwyddedau perthnasol a restrwyd yn cynnwys trwyddedau radio masnachol lleol.
- Unrhyw gwmni C4 neu gwmni S4C na fyddai fel arall yn berson wedi'i anghymhwyso yn rhinwedd y trydydd pwynt bwled uchod. [14]
- Awdurdod lleol [15] ac eithrio lle mai holl ddiben y gwasanaeth yw cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol a darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'i weithgareddau [16].
- Corff y mae ei amcanion yn wleidyddol yn bennaf neu gan mwyaf, neu gorff sy'n gysylltiedig â chorff y mae ei amcanion yn wleidyddol yn bennaf neu gan mwyaf. [17]
- Unrhyw gorff sy'n cael ei reoli fel a ganlyn: [18]

(g) a body corporate which is an associate of a body corporate falling within paragraph (d) or (e);

(h) a body corporate in which a body falling within any of paragraphs (c) to (e) and (g) is a participant with more than a 5 per cent interest;

(hh) a body corporate which is controlled by a body corporate falling within paragraph (h);

(i) a body which is controlled by a person falling within any of paragraphs (c) to (g) or by two or more such persons taken together; and

(j) a body corporate in which a body falling within paragraph (i), other than one which is controlled—

(i) by a person falling within paragraph . . . (f), or

(ii) by two or more such persons taken together,

is a participant with more than a 5 per cent interest.

- Mae person yn berson wedi'i anghymhwyso os yw unrhyw berson, ym marn Ofcom, drwy roi cymorth ariannol neu fel arall, yn dylanwadu ar weithgareddau'r person

¹¹ Erthygl 6(2)(a) o Orchymyn Radio Cymunedol 2004.

¹² Drwy ddiffiniad, mae 'relevant Broadcasting Act licence' yn drwydded Deddf Darlledu nad yw yn drwydded i ddarparu un o'r gwasanaethau canlynol: (a) gwasanaeth radio cymunedol; (b) gwasanaeth rhaglenni sain digidol; (c) gwasanaeth cyfyngedig; (d) gwasanaeth radio â chynnwys trwyddedadwy; (e) gwasanaeth teledu cyfyngedig; (f) gwasanaeth teledu â chynnwys trwyddedadwy; ac (g) gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol.

¹³ Erthygl 6(2)(b) o Orchymyn Radio Cymunedol 2004.

¹⁴ Erthygl 6(2)(c) o Orchymyn Radio Cymunedol 2004.

¹⁵ Paragraff 1(1)(c) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

¹⁶ Lle darperir gwasanaeth yn llwyr i'r dibenion o gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 142 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ('provision by local authorities of information relating to their activities'), bydd person wedi'i anghymhwyso yn rhinwedd paragraff 1(1) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990 mewn perthynas â thrwydded i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw dim ond os byddai wedi'i anghymhwyso felly gan ddiystyru paragraff (c) o'r is-baragraff hwnnw, h.y. awdurdod lleol.

¹⁷ Paragraffau 1(1)(d) a (e) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

¹⁸ Paragraffau 1(1)(g) i (j) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

hwinnw, a bod y dylanwadu hwinnw wedi arwain, yn arwain neu'n debygol o arwain at ganlyniadau sy'n niweidiol i fudd y cyhoedd. [19]

- Y BBC. [20] Mae cwmni BBC hefyd yn berson wedi'i anghymhwysu mewn perthynas â darparu gwasanaeth cenedlaethol, lleol neu gyfyngedig o fewn ystyr Rhan III o Ddeddf Darlledu 1990. [21]
- Yr Awdurdod Cymreig. [22]
- Asiantaeth hysbysebu, yn cynnwys: [23]
 - un sy'n gysylltiedig ag asiantaeth hysbysebu;
 - unrhyw gorff sy'n cael ei reoli gan asiantaeth hysbysebu neu un sy'n gysylltiedig ag asiantaeth hysbysebu, neu gan ddau neu ragor o bersonau o'r fath o'u cymryd gyda'i gilydd;
 - unrhyw gorff corfforaethol lle mae person sy'n dod o dan unrhyw un o'r uchod yn gyfranogwr a chanddo fudd o fwy na 5 y cant ynddo.
- Unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau darlledu heb awdurdod yn y 5 mlynedd diwethaf fel y cyfeirir ato yn adran 89 o Ddeddf Darlledu 1990.
- Ni chaiff unrhyw gorff corfforaethol ddal mwy nag un drwydded radio cymunedol ar unrhyw adeg. [24]
- Bydd unrhyw gorff corfforaethol sy'n gysylltiedig â chorff arall o'r fath sy'n dal trwydded o'r fath yn cael ei drin fel pe bai ef hefyd yn dal y drwydded honno. [25]
- Os yw'r ymgeisydd yn gorff crefyddol, bydd angen i Ofcom wneud penderfyniad (o dan baragraff 15 o Ran 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003) ynghylch a yw'n briodol i'r ymgeisydd ddal trwydded radio cymunedol.

¹⁹ Paragraff 4(1) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

²⁰ Paragraff 5(a) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

²¹ Paragraff 5A o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

²² Paragraff 5(b) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

²³ Paragraff 6 o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.

²⁴ Erthygl 7(1) o Orchymyn Radio Cymunedol 2004.

²⁵ Erthygl 7(2) o Orchymyn Radio Cymunedol 2004.

Atodiad 7

Mynegi diddordeb

Mynegiad o ddiddordeb mewn ymgeisio am drwydded radio cymunedol

Mae Ofcom yn ystyried a fydd a sut y bydd yn gwahodd ceisiadau pellach am drwyddedau radio cymunedol.

Y wybodaeth sydd ei hangen

Er mwyn cael cymorth i gynllunio ar gyfer datblygu radio cymunedol yn y dyfodol, rydym yn gwahodd ddarpar ymgeiswyr am drwydded radio cymunedol i gyflwyno 'mynegiad o ddiddordeb' gan amlinellu eu bwriad i ymgeisio.

Dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn 'mynegiad o ddiddordeb':

- enw'r sefydliad a'i fanylion cyswllt
- yr ardal y mae'r grŵp yn dymuno darlledu iddi;
- disgrifiad byr o'r gymuned y mae'n dymuno ei gwasanaethu;
- lleoliad arfaethedig y trosglwyddydd.

Ni fydd cyflwyno 'mynegiad o ddiddordeb' yn rhan o unrhyw gynllun trwyddedu a geir wedyn, ac ni fydd yn cael ei gymryd yn addewid sy'n rhwymo'r awdur i ymgeisio am drwydded. Yn yr un modd, ni fydd gwahoddiad i ymgeisio am drwydded radio cymunedol yn cael ei gyfyngu i'r rheini sydd wedi cyflwyno 'mynegiad o ddiddordeb' cyn hynny.

Bydd y 'mynegiadau o ddiddordeb' yn helpu Ofcom i benderfynu a fydd yn gwahodd ceisiadau ac, os bydd, i gynllunio proses trwyddedu a fydd yn ystyried patrwm y galw disgwylidig o wahanol rannau o'r wlad, yn ogystal â'r amleddau FM y disgwylir iddynt fod ar gael.

Y camau nesaf

Ar ôl dyddiad cau'r ymgyngoriad hwn bydd Ofcom yn gwerthuso'r ymatebion i'r cwestiynau yn yr ymgyngoriad yn ogystal â'r 'mynegiadau o ddiddordeb' hyn cyn cyhoeddi datganiad yn ymwneud â'r posibilrwydd o drwyddedu rhagor o orsafoedd radio cymunedol. (Rydym yn argymhell bod grwpiau sydd â diddordeb yn cadw golwg ar wefan Ofcom neu'n trefnu i gael eu hysbysu am newidiadau ar wefannau darlledu er mwyn cael newyddion pellach <https://confirmsubscription.com/h/i/7D1B465C1F301F71>)

Sut i ymateb i'r gwahoddiad hwn

Anfonwch eich 'mynegiad o ddiddordeb' drwy'r e-bost neu e-lythyr i community.radio@ofcom.org.uk , neu drwy'r post i:

Community Radio Licensing, 5th Floor, Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, Llundain SE1 9HA.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno 'mynegiadau o ddiddordeb' yw dydd Iau 22 Rhagfyr 2016.

I gael rhagor o wybodaeth am drwyddedu radio cymunedol, gweler ein gwefan:

<http://licensing.ofcom.org.uk/radio-broadcast-licensing/community-radio/>

